Canllaw arfer dda ar gyfer darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar

Datblygu a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Ionawr 2015

ⓗ **Chwarae Cymru**

Mae'r canllaw arfer dda yma wedi ei gynhyrchu mewn partneriaeth â phrosiect Y Daith Ymlaen, Cronfa Achub y Plant Cymru.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr, ar wahân i'r:

Templed dadansoddiad opsiynau
Templed cwestiynau arolwg barn a nodiadau i hwyluswyr
Rhestr wirio archwiliad man chwarae
Templed archwiliad sgiliau
Templed memorandwm cyd-ddealltwriaeth
Templed archwiliad man chwarae
Gwiriadau man chwarae cyffredin
Templed polisi rheoli risg

ISBN: 978-0-9540130-9-7

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH.

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Mae prosiect Y Daith Ymlaen, Cronfa Achub y Plant yn cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr ifanc i gael llais. Trwy weithio â phartneriaid lleol ar draws Cymru, megis Gwasanaethau Addysg Teithwyr, Cynghorau Cydraddoldeb, Cymunedau'n Gyntaf, Gwasanaethau Chwarae a leuenctid mae'r prosiect wedi datblygu fforymau ble fo pobl ifanc yn cwrdd â'i gilydd a thrafod materion sy'n effeithio arnynt; gan ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau allweddol i ddylanwadu ar bolisi ac arfer er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau a chanlyniadau ar eu cyfer hwy a'u teuluoedd.

Mae Chwarae Cymru yn elusen gofrestredig rhif: 1068926
Cwmni cyfyngedig trwy warant, rhif: 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru

Dyluniwyd gan Cheeky Monkey Creative: www.cheekymonkeycreative.co.uk

play wales chwarae cymru

Save the Children
Achub y Plant

www.chwaraecymru.org.uk

www.travellingahead.org.uk

Canllaw arfer dda ar gyfer darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar

Datblygu a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant ac mae wedi ei gorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Trwy chwarae, bydd plant yn datblygu gwytnwch a hyblygrwydd fydd yn cyfrannu at les corfforol ac emosiynol.

Gellir ystyried gwytnwch fel y ddawn i godi uwchlaw adfyd a gwrthsefyll heriau, risgiau a straen difrifol. Mae'n gysyniad cymhleth a dynamig sy'n ymwneud nid yn unig â rhinweddau seicolegol y plentyn, ond hefyd teulu'r plentyn, ei rwydweithiau cymdeithasol a'i gymdogaeth.

I'r plant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywyd. Mae plant a phobl ifanc angen, ac mae ganddynt hawl i dderbyn, mannau o safon ac amser i chwarae.

Mae chwarae'n helpu plant ifanc i ddysgu a datblygu eu sgiliau corfforol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol trwy wneud a siarad, y mae gwaith ymchwil wedi profi yw'r modd y bydd plant ifanc yn dysgu i feddwl. Dyma hefyd sut y byddant yn dysgu cymdeithasu, wrth i blant gymryd rhan mewn profiadau dysgu â phlant ac oedolion eraill.

I blant hŷn a phobl ifanc, bydd chwarae'n cynnig amser i ymlacio, archwilio'r byd, treulio amser a chymdeithasu â ffrindiau a gwthio eu ffiniau.

Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae'r canllaw arfer dda wedi ei gynllunio ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am, neu sydd ynghlwm â, rheoli neu ddatblygu safleoedd newydd, neu safleoedd sy'n bodoli eisoes, ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Gall hyn gynnwys:

- Adrannau a swyddogion cynllunio
- Penseiri
- Swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol
- Rheolwyr cyfranogaeth ac ymgynghori
- Rheolwyr a wardeniaid safle
- Gweithwyr / rheolwyr datblygu chwarae
- Timau Plismona yn y Gymdogaeth
- Sipsiwn a Theithwyr.

Dylid defnyddio'r canllaw ar y cyd â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru, *Canllawiau ar Arferion Da wrth Ddylunio a Rheoli Safleoedd* (sy'n cyfeirio hefyd at ardaloedd chwarae).

Pam ddatblygwyd y canllaw hwn?

Ar hyn o bryd mae 19 o safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar gael gan awdurdodau lleol ar draws Cymru, mewn 13 o ardaloedd awdurdodau lleol. Ceir oddeutu 370 o leiniau gydag oddeutu 580 o garafanau arnynt.

Mae data Cyfrifiad 2011 yn awgrymu bod 45 y cant o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ar draws Cymru a Lloegr â phlant dibynnol, felly mae'n debyg y bydd hyd yn oed y safle lleiaf o faint yn gartref i hanner dwsin o blant.

Mae ymgynghoriadau â Sipsiwn a Theithwyr ifanc wedi amlygu'r pwysigrwydd y maent yn ei osod ar le, amser a chaniatâd i chwarae. Tra bo byw ar safle'n golygu bod gan lawer o blant a phobl ifanc gyfeillion i chwarae â nhw, mae'r diffyg lle a chyfleusterau i chwarae'n broblem fynych a ddynodir gan y bobl ifanc.

Mewn arolygon â rhieni, yn aml roedd y rhesymau mwyaf cyffredin pam nad oedd safleoedd yn cyflawni anghenion atebwyr yn cynnwys diffyg ardal chwarae.

Yn ogystal, mae ymgynghoriadau ac arolygon wedi dynodi y gall gwasanaethau, fel grwpiau chwarae a darpariaeth chwarae wedi ei staffio, gefnogi integreiddio a mynd i'r afael â materion fel drwgdybiaeth a diffyg parch.

'Dyw llawer o'r safleoedd a geir ar draws Cymru ddim yn cynnwys cyfleusterau fel adeilad cymunedol, fyddai'n golygu y gellid cynnal darpariaeth chwarae a blynyddoedd cynnar ffurfiol.

Mae hyn yn golygu nad yw'r darparwyr yn cyflawni'r gofynion sylfaenol at ddibenion cofrestru o ran iechyd a diogelwch neu ofod, oherwydd nad oes cyfleusterau cymunedol ar y safle.

Yn 2009, cynhaliodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i ddarpariaeth mannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Dywedodd plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr wrth y Pwyllgor eu bod, yn aml, yn methu cael mynediad i weithgareddau chwarae wedi eu trefnu oherwydd eu bod yn bell o'u cartrefi. Clywodd y Pwyllgor hefyd y gall rhieni plant Sipsiwn a Theithwyr, fel gyda grwpiau eraill o rieni, fod yn amddiffynnol iawn o'u plant.

Nododd adroddiad Corff Anllywodraethol Cymru 2007 *Aros, Edrych, Gwrando: sut mae gwireddu hawliau plant yng Nghymru* bod plant Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn wynebu hiliaeth enbyd, sy'n ei gwneud yn anos iddynt gyfranogi mewn gweithgareddau hamdden.

Mae addasrwydd gofodau sy'n bodoli eisoes, a safbwyntiau rhieni a phobl eraill, yn effeithio ar y cyfleoedd chwarae y gall plant gael mynediad iddynt. Bwriad y canllaw hwn yw cefnogi cynllunwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Sut ddatblygwyd y canllaw hwn?

Datblygwyd y canllaw hwn gan Chwarae Cymru, yn gweithio mewn partneriaeth â phrosiect Y Daith Ymlaen, Achub y Plant Cymru. Fe wnaethom sefydlu ac ymgynghori â grŵp ffocws o ddarparwyr yn ystod y broses ddrafftio a defnyddio eu profiadau i ddatblygu'r modelau ac i fynd i'r afael â'r materion pwysicaf.

Gofynnodd Y Daith Ymlaen, yn eu cyfarfodydd fforwm rhanbarthol, i blant a phobl ifanc am eu syniadau ar gyfer gwella cyfleusterau chwarae a hamdden ar safleoedd.

Sut ddylid ei ddefnyddio?

Mae'r canllaw wedi ei rannu'n ddwy ran:

1. **Modelau darpariaeth** – sy'n canolbwyntio ar fodelau darpariaeth chwarae. Fe'i datblygwyd gan ddefnyddio astudiaethau achos o ddarpariaeth sy'n bodoli ar draws Cymru eisoes. Mae'n darparu'r sail resymegol, ac yn dynodi buddiannau a nodweddion allweddol modelau darpariaeth llwyddiannus
2. **Offer i gynorthwyo** – sy'n darparu ystod o offer i gynorthwyo gyda datblygu a rheoli darpariaeth chwarae newydd.

Trwyddo, mae'n cynnwys nodweddion allweddol modelau darpariaeth llwyddiannus, yn seiliedig ar arfer o bob cwr o Gymru.

Beth mae wedi ei ddylunio i'w wneud?

Mae'r canllaw wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth clir a chryno er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ystyried a chynnwys darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar tra'n datblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd, a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'n cynnwys gwybodaeth neilltuol a fwriedir i'n helpu i ddeall a mynd i'r afael â meysydd penodol sy'n peri pryder. Mae hefyd yn darparu offer ymarferol, cam-wrth-gam, templedi a modelau o ddarpariaeth llwyddiannus.

Pa bolisi neu ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r pecyn cymorth hwn?

Hawliau Plant

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn amlinellu 54 o erthyglau sy'n diffinio sut y dylid trin plant a phobl ifainc a'r modd y dylai llywodraethau fonitro CCUHP. Mae Llywodraeth y DU wedi arwyddo'r Confensiwn ac fe wnaeth Cymru ei fabwysiadu fel sail ar gyfer llunio polisïau yn 2004. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ystyried a hybu CCUHP mewn polisïau a deddfwriaethau. Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru'n dechrau mabwysiadu CCUHP hefyd. Mae tair erthygl yn benodol sy'n ddefnyddiol i'w hystyried wrth ddarparu ar gyfer mannau chwarae plant:

Erthygl 31: Yr hawl i hamdden, chwarae a diwylliant

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig ac adloniadol eraill. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cyhoeddi Sylw Cyffredinol rhif 17 ar Erthygl 31. Mae hwn yn ddatganiad swyddogol sy'n ymhelaethu ar ystyr elfen o GCUHP sydd angen dehongliad neu bwyslais pellach. Nod y Sylw Cyffredinol yw cynyddu pwysigrwydd Erthygl benodol a chynyddu atebolrwydd ymysg gwledydd sydd wedi arwyddo'r Confensiwn.

Erthygl 12: Parchu barn y plentyn

Pan fo oedolion yn llunio penderfyniadau fydd yn effeithio ar blant, bydd gan blant hawl i ddweud yr hyn y maent yn credu ddylai ddigwydd ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 15: Rhyddid i ymgysylltu

Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd.

Polisi Chwarae Cenedlaethol

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru arddangos ei ymrwymiad i chwarae plant yn y Polisi Chwarae cenedlaethol (2002). Mae'r Polisi'n datgan bod:

"Chwarae'n cwmpasu ymddygiad plant a ddewisir o wirfodd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Nid yw'n cael ei berfformio er mwyn nod neu wobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach – nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y gymdeithas y maent yn byw ynddi."

Dyletswyddau Statudol

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal.

Daw'r Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae fel rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi sy'n cydnabod y gall plant ddioddef o dlodi profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math yma o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol, *(Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae)* ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn asesu ar gyfer a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Mae'r Canllawiau'n nodi y dylai asesiadau chwarae gwmpasu i ba raddau y mae cyfleoedd chwarae'n briodol ar gyfer gofynion plant o amrywiol gymunedau a diwylliannau, yn cynnwys plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr. Fel rhan o'u Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gyflwynwyd yn 2013, fe wnaeth awdurdodau lleol asesu i ba raddau y mae'n darparu gofod chwarae penodedig, gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2011), mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr hawl i chwarae a'i gyfraniad at ddatblygiad a gwytnwch plant. Mae'r strategaeth yn gwerthfawrogi chwarae fel elfen hanfodol o ddatblygiad plant ac y gall ddarparu elfen warchodol gref ym mywydau plant. Mae'r strategaeth yn pwysleisio y gall chwarae, i ryw raddau, warchod plant rhag agweddau negyddol tlodi a chaniatáu iddynt ddatblygu eu hadnoddau mewnol a chynyddu eu gwytnwch yn erbyn anawsterau ac ansicrwydd yn eu bywydau. Mae chwarae'n cyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol plant, eu iechyd corfforol a meddyliol, a'u gallu i ddysgu ac ymgysylltu ag addysg.

Cyfranogaeth

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn gwneud trefniadau i hybu a hwyluso cyfranogaeth plant a phobl ifainc yn y broses llunio penderfyniadau. Mae Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru'n cynnig sail egwyddorol ar gyfer cynnwys plant a phobl ifainc mewn prosesau llunio penderfyniadau. Mae'r safonau'n egluro'r hyn y dylai plant a phobl ifainc ei ddisgwyl tra'n cael clywed eu llais yng nghyd-destun gwybodaeth, dewis, peidio â gwahaniaethu, parch, buddiannau i blant a phobl ifainc, y modd y bydd plant a phobl ifainc yn derbyn adborth a'r modd y bydd darparwyr gwasanaethau'n gwella ansawdd.

Deddf Tai (Cymru) 2014

Mae Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ail-gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ble fo angen nas diwallwyd mewn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn dyblygu dyletswydd tebyg o dan Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968, a ddiddymwyd ym 1994. Ers 1997, dim ond un safle a adeiladwyd gan awdurdod lleol yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi'r dyletswydd newydd, bydd Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn darparu ariannu Grant Cyfalaf o 100 y cant (mwyafswm o £1.5m i bob prosiect) i awdurdodau lleol er mwyn datblygu safleoedd newydd. Annogir awdurdodau lleol i ymgeisio am yr ariannu yma er mwyn sicrhau yr adeiledir safleoedd newydd.

Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddatblygu a diweddaru canllawiau ar ddylunio a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r canllawiau yma'n nodi y dylai awdurdodau lleol ystyried lles plant a phobl ifanc a bod ardal i blant a phobl ifanc chwarae ac ymgasglu'n bwysig. Mae'n annog awdurdodau lleol i ystyried cynnwys ardaloedd chwarae a dylunio cynllun safle sy'n annog cyfleoedd chwarae.

Teithio at Ddyfodol Gwell

Nod *Teithio at Ddyfodol Gwell – Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr* yw i:

- gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr
- sicrhau cydraddoldeb cyfleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru
- meddwl am ffyrdd newydd y gellir galluogi cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i gael mynediad i adnoddau sydd ddim ar gael iddynt bob amser, trwy sicrhau bod gwasanaethau'n ddigon hyblyg i ymateb i'w anghenion.

'Lucy Smith oedd aelod Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn a fu'n gweithredu fel *rapporteur* pan archwiliodd y Pwyllgor Barti Gwladol y Deyrnas Unedig ddiwethaf yn 2008.

Fe ddaeth hi i ymweld â Chymru yn y rôl honno, ac fe ges i'r pleser o'i hebrwng pan oedd hi yma. Fe ddysgais i lawer ganddi am y Confensiwn a pha mor bwysig yw gweld cymhwyso hawliau plant fel tasg ymarferol yn hytrach nag un ddeallusol. Roedd y trylwyredd deallusol yno, ac fe ddefnyddiodd Lucy ei gallu yn y maes hwnnw'n arbennig o dda, ond dim ond er mwyn cyrraedd y nod. Rwy'n ei chofio hi'n dweud wrthyf fi "Nid polisi neu gyfraith newydd yw'r targed; y targed yw gwneud bywydau plant yn well nag ŷn nhw nawr".

Cyn dod i Gymru, ffoniodd Lucy fi, a dweud bod tuedd, pan fyddai *rapporteurs* yn ymweld â Phartïon Gwladol, i ymfalchïo yn y cyflawniadau hawliau plant. Doedd Lucy ddim am gael hynny yng Nghymru. "Dangos y da a'r drwg i fi" meddai, "Rwy am gael darlun go iawn o'r sefyllfa yng Nghymru".

Fe fuodd hi'n cwrdd â phlant a phobl ifanc, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ar nifer o safleoedd ledled de Cymru. Fe gwrddodd hi â gwleidyddion lleol a chenedlaethol, gan gynnwys cyfarfod â Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru ar y pryd. Fe aeth i gyfarfodydd ac ar ymweliadau â llygad profiadol, gan gynnwys mynd i safle Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd. Aeth un o'r trigolion â ni i'r lle chwarae plant. Roedd haenau metel crychiog wedi cael eu gosod o amgylch y lle chwarae oherwydd ei fod yn anaddas i blant. Roedd wal gynnal y môr yn cwympo'n ddarnau, ac roedd llygod marw ar y llawr. Cafodd Lucy ei syfrdanu gan y fath erchylltra, a gafaelodd yn fy mraich wrth i ni gerdded nôl at y car. Ddeg munud yn ddiweddarach roedden ni tu allan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Allai hi ddim peidio â sylwi ar y gwrthgyferbyniad rhwng y lle chwarae aflan a oedd drws nesa i gartref democratiaeth fodern yng Nghymru.

Rhoddodd Lucy hefyd anerchiad grymus mewn digwyddiad yn y Senedd. Edrychodd allan arnon ni i gyd, yn wleidyddion, cyrff anllywodraethol, plant a phobl ifanc, academyddion, swyddogion o Lywodraeth Cymru a'r cyfryngau. Roedd ei neges yn glir, fel roedd ei her gyffredinol i'r gymuned hawliau plant yng Nghymru. Dywedodd Lucy wrthon ni ein bod ni wedi gwneud cryn gynnydd, ond bod cyfrifoldeb arnon ni i sbarduno newid yma yng Nghymru ac i arwain y ffordd ar draws y DU trwy esiampl. Petaen ni, yma yng Nghymru, yn methu gwireddu hawliau plant, fyddai neb yn gallu gwneud hynny.'

Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, 2008-2015

Rhan 1
Modelau darpariaeth chwarae

Adran 1
Darparu mannau dan do ar gyfer chwarae ar safleoedd 7

Adran 2
Darpariaeth blynyddoedd cynnar 7

Adran 3
Darpariaeth chwarae wedi ei staffio 8

Adran 4
Offer chwarae a mannau chwarae 9

Adran 5
Annog integreiddio â darpariaeth chwarae lleol 10

Adran 6
Cefnogi mannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol 11

Mae'r rhan yma o'r canllaw'n canolbwyntio ar fodelau o ddarpariaeth chwarae. Fe'i datblygwyd gan ddefnyddio astudiaethau achos o ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes ar draws Cymru. Mae'n darparu'r sail resymegol, ac yn dynodi buddiannau a nodweddion allweddol modelau darpariaeth llwyddiannus.

Bydd y mwyafrif o blant yn chwarae heb angen am ymyrraeth oedolion, hyd yn oed yn yr amgylcheddau mwyaf diffaith, ond bydd amgylchedd sy'n gyfoethog o bosibiliadau'n cefnogi eu chwarae orau oll. Bydd rhai plant angen cefnogaeth eraill i wneud y gorau o'r amgylchedd o'u hamgylch a chwmni plant eraill. Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn amgylchedd ble y gall plant a phobl ifanc wneud ystod eang o ddewisiadau; ble y ceir llawer o bosibiliadau iddynt allu dyfeisio ac ymestyn eu chwarae eu hunain. Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn:

- amgylchedd corfforol amrywiol, diddorol a llawn ysbrydoliaeth sy'n mwyafu'r potensial ar gyfer cymdeithasu, creadigedd, dyfeisgarwch a her.
- le ble y bydd plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, ac ar eu telerau eu hunain.

Mae'n bosibl na fydd plant a phobl ifanc ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, am amrywiol resymau, yn mynychu addysg yn llawn amser, ond maent yn awyddus i ddysgu. Mae darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar wedi ehangu rhagolygon i'r dyfodol, trwy ddarparu cyfleoedd i blant hŷn wirfoddoli ac ennill profiad gwaith gofal plant a chwblhau hyfforddiant.

Yn yr un modd, mae'n gyffredin i blentyn hynaf mewn teuluoedd i fod wedi derbyn cyfrifoldeb o oedran ifanc. Mae dapraru cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu'n ein galluogi i ateb anghenion chwarae pobl ifanc sydd, efallai, heb eu cyflawni yn y gorffennol.

Oherwydd natur y cartrefi a geir ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr mae lle i storio'n gyfyngedig ac nid oes modd bob amser i deuluoedd ddarparu ystod eang o adnoddau i gefnogi chwarae plant. Yn aml, mae safleoedd yn orlawn neu yn sefyll mewn, neu wedi eu hamgylchynu gan, amgylcheddau anaddas a pheryglus. Yn aml, nid yw plant a phobl ifanc yn byw yn agos i gyfleusterau chwarae; mae trafnidiaeth, mynediad, a chynhwysiant yn faterion o bwys i lawer o blant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn a Theithwyr.

Adran 1 Darparu mannau dan do ar gyfer chwarae ar safleoedd

Pan fyddwn yn cynllunio cyfleusterau cymunedol fel rhan o ddylunio neu adnewyddu safleoedd, mae'n bwysig inni ystyried sut y gallai plant a phobl ifanc ddefnyddio'r gofod. Caiff mannau dan do ar gyfer chwarae, sydd wedi eu dylunio'n dda, eu cynllunio fel y gellir eu defnyddio mewn modd hyblyg a'u bod yn cynnig ystod priodol o gyfleoedd.

Mae darpariaeth cyfleusterau cymunedol yn cefnogi ymgysylltiad cymunedol, ac mae darpariaeth chwarae a blynyddoedd cynnar da yn gweithredu fel sbringfwrdd ar gyfer gwasanaethau eraill a chyfranogaeth cymunedol. Mae gallu cael mynediad i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o safon, mannau chwarae wedi eu dylunio'n dda sydd ag adnoddau digonol a darpariaeth chwarae wedi ei staffio, yn cynnig buddiannau helaeth i'r plant, y rhieni a'r gymuned.

Nodweddion allweddol mannau dan do da ar gyfer chwarae:

- Mae'r mannau chwarae'n darparu profiadau cyfoethog – gall y plant archwilio, arbrofi, a dysgu gwybodaeth sylfaenol trwy brofiad uniongyrchol
- Mae'r mannau chwarae'n darparu ymdeimlad o berthyn – mae'r plant a'r bobl ifanc angen bod yn agos i bobl y maent yn eu hadnabod, bod â gwrthrychau cyfarwydd a chyfforddus, a bod mewn lleoliad sydd â hanes personol perthnasol iddyn nhw
- Mae'r mannau chwarae'n cynnwys adnoddau sy'n briodol, wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n hygyrch i bob plentyn
- Mae'r mannau chwarae wedi eu cynllunio fel y gellir eu defnyddio mewn modd hyblyg a darperir ystod amrywiol o weithgareddau yno.

Adran 2 Darpariaeth blynyddoedd cynnar

Mae'r gefnogaeth y gall teuluoedd gael mynediad iddo trwy ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn arbennig o werthfawr wrth ddiwallu anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Mae ennill profiadau blynyddoedd cynnar o safon yn helpu plant i setlo mewn amgylcheddau newydd. Mae hyn yn darparu cymorth ar gyfer y cyfnod pontio o ddechrau yn yr ysgol, mae'n caniatáu i'r plant ddeall y 'rheolau' cymdeithasol pan fyddant y tu allan i'r uned deuluol ac i ffurfio perthnasau ag oedolion newydd a'u cyfoedion. Mae chwarae'n caniatáu i blant fwynhau profiadau heriol, archwilio a darganfod drostynt eu hunain a thrwy hynny dyfu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae chwarae'n bwysig er mwyn i blant ennill hyder a hunan-barch; mae'r chwarae a geir mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar yn ben agored ac annogir y plant i gyfranogi mewn gweithgareddau heb orfod 'cynhyrchu' cynnyrch terfynol. Bydd lleoliadau chwarae blynyddoedd cynnar da yn cefnogi plant i fod â'r hyder i roi tro ar bethau newydd a datblygu diddordeb mewn dysgu. Mae chwarae'n y lleoliadau hyn yn hybu cyfoethogi ystod o sgiliau, yn cynnwys sgiliau hunangymorth, creadigol, mathemategol, ieithyddol a mynegiannol.

Bydd darparu amgylchedd awyr agored cyfoethog yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu a chynnydd mewn chwarae corfforol. Mae staff mewn lleoliadau fel hyn wedi sylwi ar gynnydd mewn cymdeithasu a llai o ymladdgarwch. Bydd staff gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn llunio perthnasau cadarnhaol â rhieni, a bydd hyn yn helpu teuluoedd i ennill hyder a chael mynediad i wasanaethau eraill y mae nhw a'u plant eu hangen.

Nodweddion allweddol darpariaeth blynyddoedd cynnar llwyddiannus neu bethau i'w hystyried:

- Cyflogir gweithwyr proffesiynol cymwysedig, angerddol a brwdfrydig
- Cynhelir arsylwadau o bob plentyn er mwyn sicrhau eu anghenion unigol
- Mae'r staff yn deall yr angen iddynt feithrin a chefnogi anghenion pob plentyn ac i helpu rhieni a phlant i wynebu'r ymwahaniad dros dro fydd yn digwydd pan fo plant yn mynychu'r lleoliad
- Bydd y staff yn gweithio'n agos ag amrywiol weithwyr proffesiynol, yn cynnwys: ymwelwyr iechyd, therapyddion iaith a lleferydd, a thîm cynghori Dechrau'n Deg
- Ceir cysylltiadau ag ysgolion lleol a chefnogir y cyfnod pontio er mwyn sicrhau bod plant yn ymuno ag addysg prif ffrwd yn y cyfnod meithrin / derbyn
- Darperir ystod o gyfleoedd chwarae a gwneir y defnydd gorau posibl o unrhyw ofod awyr agored
- Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr.

Adran 3 Darpariaeth chwarae wedi ei staffio ar safleoedd

Bydd gweithwyr chwarae'n creu cyfleoedd a mannau ble y gall plant a phobl ifanc chwarae'n rhydd a hyderus. Maent yn fannau ble y gallant ddod ar draws ystod eang o gyfleoedd a phosibiliadau – ble fo'r oedolion sy'n bresennol yn deall natur a phwysigrwydd pob agwedd ar chwarae plant ac yn gweithio i'w gefnogi.

Mae gweithwyr chwarae'n ystyried plant a phobl ifanc fel unigolion cymwys. Maent yn deall yr angen i blant wynebu a chreu ansicrwydd a her fel rhan o'u chwarae. Fydd gweithwyr chwarae ddim yn cyfarwyddo nac yn trefnu'r chwarae, maent wedi eu hyfforddi i farnu pryd, neu os, y dylent ymyrryd.

Bydd gweithwyr chwarae'n galluogi plant i ehangu eu chwarae eu hunain a byddant yn amddiffyn a chyfoethogi'r gofod chwarae fel ei fod yn amgylchedd chwarae cyfoethog. Bydd gweithwyr chwarae'n sicrhau bod y gofod chwarae'n gynhwysol, trwy gefnogi pob plentyn i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael yn eu ffordd eu hunain.

Gweithwyr chwarae allgymorth ar y safle

Caiff prosiectau gwaith chwarae peripatetig eu staffio gan dîm bychan o weithwyr chwarae hyfforddedig, fydd yn ymweld â'r safle unwaith neu ddwywaith yr wythnos am gwpwl o oriau. Byddant yn meddu ar syniadau ac adnoddau, a byddant yn gweithio i helpu'r plant i greu mannau i chwarae ynddynt yn eu hardal leol, ac i dawelu meddyliau rhieni ei bod yn ddiogel i'r plant gymryd rhan mewn sesiynau chwarae. Gall y sesiynau hyn gael eu cynnal yn yr awyr agored neu mewn cyfleusterau dan do, ble fo'r rhain i gael.

Bydd gweithwyr chwarae'n cynnig ystod o gyfleoedd chwarae na fydd gan y plant fynediad iddynt, efallai, fel gweithgareddau creadigol, gweithgareddau aflêr, gweithgareddau synhwyraidd a chymdeithasu.

Darpariaeth symudol sy'n ymweld â'r safle

Mae gwasanaeth chwarae symudol yn cefnogi trosglwyddo cyfleoedd chwarae ac adnoddau i blant mewn cymunedau sydd heb unrhyw adnoddau chwarae neu ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio sy'n lleol a hygyrch. Mae'n darparu gofod 'dan do' sy'n cynnig ystod o gyfleoedd ar gyfer chwarae allan a chymdeithasu fydd, efallai, ddim ar gael i blant a phobl ifanc oherwydd natur eu llety preswyl. Bydd gwasanaethau chwarae symudol yn teithio i'r ardaloedd hyn i gyflawni anghenion chwarae a chymdeithasoli plant a'u teuluoedd.

Fel arfer, caiff y ddarpariaeth chwarae ei amserlennu fel bod y plant a'u teuluoedd yn gwybod pryd a ble y bydd y gweithwyr chwarae a'r adnoddau ar gael.

Yn ogystal, gall darpariaeth chwarae symudol:

- Gynnig gofod ar gyfer ymgynghori â phlant ar draws nifer o gymunedau
- Cynnig man croesawus ble y gall teuluoedd ganfod sut i gefnogi chwarae eu plant
- Darparu llyfrgell deganau neu storfa sgrap.

Un enghraifft adnabyddus o chwarae symudol yw'r bws chwarae. Mae bysus chwarae'n 'adeiladau cymunedol ar olwynion'. Gall bws chwarae weithredu fel crèche, meithrinfa neu grŵp rhiant a phlentyn; canolfan galw heibio gyda'r nos i ieuenctid; gwasanaeth chwarae y tu allan i'r ysgol; a llawer mwy.

Nodweddion allweddol darpariaeth chwarae symudol ac allgymorth wedi ei staffio llwyddiannus neu bethau i'w hystyried:

- Mae'r gweithwyr chwarae wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr ac maent yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r diwylliant a diwylliannau'r gymuned a'r safle
- Mae'r gweithwyr chwarae'n hyblyg ac yn gallu ymdopi â natur cyfnewidiol y safle
- Dylai'r gweithwyr chwarae feddu ar ddealltwriaeth dda o ddemograffeg y safle
- Dylai'r gweithwyr chwarae greu cysylltiadau â darparwyr gwasanaethau eraill a adnabyddir ar y safle eisoes, er mwyn cael eu cyflwyno i aelodau o'r gymuned
- Dylai'r gweithwyr chwarae fod yn gwbl eglur am natur y ddarpariaeth a'r modd y gall rhieni ei gefnogi, er mwyn helpu i leddfu pryderon rhieni
- Bydd y gweithwyr chwarae'n darparu amrywiaeth eang o brofiadau chwarae sy'n cynnig profiadau newydd a gwahanol
- Bydd y gweithwyr chwarae'n darparu cefnogaeth i herio negyddoldeb, os y bydd plant a phobl ifanc am fynegi eu hunain mewn modd sy'n symud oddi wrth fodd ystrydebol o chwarae
- Mae'n hyblyg ac yn creu gwasanaeth wrth fesur er mwyn ymateb i anghenion chwarae plant mewn gwahanol gymunedau
- Mae'n cyrraedd cymunedau anghysbell, difreintiedig sydd â diffyg adnoddau
- Gall beilota prosiectau mewn ystod o wahanol ardaloedd a gyda gwahanol grwpiau o blant.

Adran 4 Offer chwarae a mannau chwarae

Mae mannau da i chwarae o fewn cymuned yn dangos i'r bobl yn y gymuned honno bod chwarae'n bwysig. Maent yn creu canolbwynt ar gyfer y gymuned, gan gynnig cyfleoedd i oedolion a phobl ifanc ymgysylltu a chymdeithasu â'i gilydd. Mae plant a theuluoedd yn gwerthfawrogi mannau chwarae o safon, y perthnasau y byddant yn eu llunio trwyddynt a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i gymunedau.

Gall offer chwarae gynnig profiadau cyffredin a bydd rhai darnau o offer, fel llochesi, yn darparu lle ar gyfer cymdeithasu, tra'n cydnabod cyfyngiadau diffyg gofodau dan do a thywydd gwael.

Er mwyn gwneud y gorau o ofod chwarae, mae angen i blant allu ei addasu a'i siapio i gyflawni eu anghenion chwarae ac mae angen iddo newid dros amser a darparu cyfleoedd newydd ar gyfer chwarae. Bydd ychwanegu arwynebau rhydd, fel tywod a rhisgl, cynnwys dŵr, a choed a llwyni yn darparu cyflenwad o rannau rhydd sy'n newid i gyd-fynd a'r tymhorau, y bydd y plant yn eu defnyddio mewn amrywiol ffyrdd dyfeisgar.

Mae rhannau rhydd yn wrthrychau neu'n elfennau y gellir eu symud o gwmpas, eu haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu, eu cymysgu neu eu llenwi â rhinweddau dychmygol – er enghraifft:

> Papur, cerrig, brigau, dŵr, tywod, dail, plu, offer, hoelion, bocsys, defnydd, rhaffau, pren, sosbenni, anifeiliaid, planhigion, metal, clai, mwd, byrddau, cadeiriau, blancedi, popeth ac unrhyw beth y gellir ei symud neu ei drin a'i drafod fel rhan o chwarae. Mae'r mannau chwarae gorau yn cynnwys amrywiaeth eang o rannau rhydd ac mae'r plant yn rhydd i chwarae â nhw fel y mynnant.

Yn eu Canllawiau Statudol i awdurdodau lleol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, mae Llywodraeth Cymru'n ddiffinio amgylchedd chwarae cyfoethog fel un sy'n hyblyg, addasadwy, amrywiol a diddorol. Mae'n mwyafu'r potensial ar gyfer cymdeithasu, creadigedd, dyfeisgarwch, her, a dewis. Mae'n fan cyhoeddus dibynadwy ble y bydd plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain ac ar eu telerau eu hunain.

Am ragor o wybodaeth gweler taflenni gwybodaeth Chwarae Cymru: *Mannau chwarae: cynllunio a dylunio* a *Mannau chwarae: cwynion cyffredin ac atebion syml.*

Mae'r ddwy daflen ar gael i'w lawrlwytho ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/taflennigwybodaeth

Mae darpariaeth chwarae o safon yn cynnig cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd â, neu brofi'r canlynol:

- **Plant eraill** – o wahanol oedrannau a gallu, gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod, cydweithredu, dadlau a datrys anghydfodau
- **Y byd naturiol** – y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd
- **Rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu
- **Y pedair elfen** – daear, awyr, tân a dŵr
- **Her ac ansicrwydd** – cyfleoedd graddedig ar gyfer cymryd risg; ar lefel corfforol yn ogystal ag emosiynol
- **Newid cymeriad** – chwarae rôl a gwisgo i fyny
- **Symud** – rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio, siglo, llithro a throelli
- **Chwarae gwyllt** – chwarae ymladd
- **Y synhwyrau** – sŵn, blas, gwead, arogl a golygfeydd.

Nodweddion allweddol mannau chwarae da neu bethau i'w hystyried:

- Mae'r mannau chwarae wedi eu dylunio ag anghenion a nodweddion y gymuned leol mewn golwg wrth ddynodi lleoliad ac ystod debygol y defnydd a'r defnyddwyr
- Mae gan y mannau chwarae gymeriad lleol amlwg o ran y patrwm, y deunyddiau a'r nodweddion penodol a ddefnyddir
- Mae'r nodweddion naturiol a geir yn y gofod, fel coed sydd yno eisoes a phyllau naturiol, yn cael eu parchu a'u integreiddio
- Mae'r gofod a'r cyd-destun cyffredinol cyn bwysiced â nodweddion chwarae unigol wrth greu mannau chwarae llwyddiannus
- Mae'r mannau chwarae'n cynnwys deunyddiau a nodweddion chwarae sy'n anghyfarwyddol ac o'r herwydd yn annog dychymyg ac yn awgrymu nifer o wahanol ffyrdd o chwarae ynddynt a gyda hwy
- Nid yw'r mannau chwarae'n dibynnu'n bennaf ar offer chwarae gwneuthuredig ar gyfer y cyfleoedd chwarae a gynigir. Bydd y mannau chwarae'n defnyddio offer gwneuthuredig i gyfoethogi'r hyn sy'n cael ei gynnig
- Mae cynllun y mannau chwarae'n sicrhau pan ddefnyddir offer chwarae, ei fod yn cael ei integreiddio â ac yn cyfannu nodweddion eraill y safle
- Mae'r mannau chwarae'n ymgorffori cyfleoedd i blant wynebu neu greu her a risg.

Adran 5 Annog integreiddio â darpariaeth chwarae lleol

Weithiau, mae'n bosibl gweithio â gwasanaethau lleol er mwyn helpu i integreiddio rhieni a'u plant i mewn i'r gymuned leol. Yn aml bydd hyn yn canolbwyntio ar iechyd a lles a chwarae, ond mae hefyd yn cefnogi teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr i archwilio eu diwylliant eu hunain a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

'Dyw hi ddim yn anghyffredin i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr deimlo eu bod wedi ymddieithrio oddi wrth y gymuned leol. Yn aml, gall y plant deimlo wedi eu hynysu a bod eraill yn gwahaniaethu'n eu herbyn. Pan fo prosiectau chwarae wedi llwyddo i gefnogi integreiddio, fe wnaethant ddechrau trwy weithio ar safleoedd neu efallai fynd â'r plant ar deithiau wedi eu trefnu i atyniadau lleol. Yn aml, bydd prosiectau integreiddio llwyddiannus yn dechrau trwy drefnu digwyddiadau ar gyfer rhieni a phlant bach, gan fod hyn yn helpu i gychwyn trafodaethau am bwysigrwydd addysg ac integreiddio.

Mae'r agwedd yma'n helpu gweithwyr chwarae i ennill ymddiriedaeth a pharch rhieni ac mae'n eu cefnogi i awgrymu y gallai'r plant a'r bobl ifanc elwa o ddefnyddio cyfleusterau cymunedol lleol.

Yng Nghymru, mae prosiectau integreiddio llwyddiannus wedi helpu i roi llais i blant a phobl ifanc. Mae gwasanaethau chwarae wedi cefnogi creu fforymau Sipsiwn a Theithwyr lleol. Mae'r fforymau hyn yn rhan o'r prosiect Y Daith Ymlaen, a sefydlwyd gan Achub y Plant i roi cyfle i blant Sipsiwn a Theithwyr i drafod materion sy'n bwysig iddyn nhw ac i ddeall eu hawliau fel plant a phobl ifanc.

Mae'r fforymau lleol hyn wedi cefnogi plant a phobl ifanc i ennill yr hyder a'r sgiliau i ymgysylltu â phlant eraill a gweithwyr proffesiynol. Mae gweithio mewn modd cyfranogol ag oedolion wedi helpu pobl ifanc i fynd â'u sgiliau a'u dysg yn ôl at eraill ar y safle, a'u helpu i ddeall pwysigrwydd rheolau a ffiniau, tra'n deall eu hawliau personol eu hunain.

Mae'r dull hwn o weithio wedi galluogi gweithwyr chwarae i integreiddio plant i mewn i amgylcheddau a darpariaeth chwarae sy'n bodoli eisoes â llai o drafferthion yn codi.

Nodweddion allweddol integreiddio llwyddiannus neu bethau i'w hystyried:

- Mae'r gweithwyr chwarae wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr ac maent yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r diwylliant a diwylliannau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr
- Bydd y gweithwyr chwarae'n creu cysylltiadau â darparwyr gwasanaethau eraill a adnabyddir ar y safle eisoes, er mwyn cael eu cyflwyno i aelodau o'r gymuned
- Mae'r gweithwyr chwarae'n gwbl eglur am natur y ddarpariaeth a'r modd y gall rhieni ei gefnogi, er mwyn helpu i leddfu pryderon rhieni
- Bydd y gweithwyr chwarae'n ystyried trefnu ymweliadau i ddarpariaeth ar gyfer rhieni cyn trefnu sesiynau ar gyfer y plant
- Caiff unrhyw faterion yn ymwneud â chludiant eu dynodi a'u rhoi mewn trefn cyn i'r broses integreiddio ddechrau
- Mae'r gweithwyr chwarae'n deall bod integreiddio'n cymryd amser a bydd angen iddynt fod yn ymwybodol y gall hyn fod yn heriol ar gyfer pob plentyn.

'Rwyf wedi gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn helpu i integreiddio'r rhieni a'u plant i mewn i'r gymuned leol, gan ganolbwyntio ar les a chwarae, ond hefyd trwy gefnogi eu diwylliant eu hunain a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn gyffredinol.

Roeddwn yn hwyluso sesiynau chwarae ar ddau safle a gweithiais gyda'r rhieni, gan drefnu hyfforddiant ar gyfer gweithio â phlant dan bum mlwydd oed, bwyd a maethiad a thrafod pwysigrwydd addysg ac integreiddio gyda nhw. Roedd y rhieni, ar y cyfan, yn barod iawn i dderbyn fy syniadau, a llwyddais i ffurfio perthnasau cymunedol cryfion iawn a chefais fy nerbyn fel rhan o'r gymuned ar y safle.

Pan fydden ni'n mynd â'r plant allan ar deithiau wedi eu trefnu, bu'n bosibl imi ennill ymddiriedaeth y rhieni a theimlais yn gyfforddus i awgrymu efallai y dylai'r plant ddechrau defnyddio'r cyfleusterau yn y ganolfan chwarae leol.

Fe glywais am fforymau ieuenctid Y Daith Ymlaen ac awgrymais i'r bobl ifanc oedd yn mynychu ein sesiynau ar y safle, efallai yr hoffent sefydlu grŵp lleol. Fe wnaeth hyn fy ngalluogi i ail-integreiddio'r plant i amgylchedd y ganolfan chwarae gan fod y cyfarfodydd a'r digwyddiadau'n cael eu cynnal yno.'

Gweithiwr Chwarae

Adran 6 Cefnogi mannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol

Caiff mannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol eu datblygu, eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw gan bobl leol i ateb anghenion eu cymuned.

Gall datblygu man chwarae sy'n cynnwys defnyddio arwynebau ac offer gwneuthuredig fod yn broses gostus ond, yn aml, â'r arweiniad cywir, mae ystod o amrywiol sgiliau'n bodoli eisoes mewn cymunedau y gellir eu defnyddio i greu mannau chwarae o safon ac i sicrhau bod arian ac adnoddau'n mynd ymhellach. Ar yr un pryd, gall gweithio gyda'n gilydd ar fan chwarae feithrin ymdeimlad o berchenogaeth a chydlyniant cymunedol.

Tra y ceir arweiniad ar arwynebau diogel ac offer y gellir eu defnyddio mewn mannau chwarae, caiff ei gamddeall yn aml ac os yw llywio eich ffordd trwy fiwrocratiaeth yn profi i fod yn anodd mae'n werth ceisio cyngor proffesiynol. Yn ogystal, nid oes rhaid i fannau chwarae hunan-adeiladu cymunedol gael eu hadeiladu'n llwyr gan y gymuned – bydd modd cael cymorth allanol gyda rhai elfennau o'r broses ddylunio ac adeiladu.

Nodweddion allweddol prosiectau hunan-adeiladu cymunedol llwyddiannus:

- Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr
- Cefnogir diwylliant o gydlyniant cymunedol
- Ceir ymateb i angen lleol
- Defnyddir sgiliau ac adnoddau lleol
- Cefnogir rhannu sgiliau a chynyddu sgiliau
- Mae ymdeimlad o falchder a pherchenogaeth yn y gofod
- Ceir gofod a phrofiad chwarae wedi ei gyfoethogi
- Opsiwn rhad ar gyfer darparu prosiect penodol
- Caniatáu i dirlunio a nodweddion naturiol, sy'n nodweddiadol o'r safle, i gael eu cynnwys.

Am fwy o wybodaeth, gweler 'Construction Notes for Self-Build Play Equipment' gan RoSPA:

www.rospa.com/leisuresafety/adviceandinformation/playsafety/selfbuild-playequipment.aspx

New Model Army Photography

Tim Chwarae Plant, Dinas a Sir Abertawe

Rhan 2
Offer i gynorthwyo

Adran 1
Cynnal dadansoddiad opsiynau 12

Adran 2
Ymgysylltu â phlant 13

Adran 3
Archwiliadau (audits) chwarae 17

Adran 4
Dynodi'r potensial i ofod hyrwyddo chwarae 18

Adran 5
Gweithio â rhieni a theuluoedd 22

Adran 6
Gweithio â'r gymuned ehangach 23

Adran 7
Egwyddorion dylunio mannau chwarae 26

Mae'r rhan yma o'r canllaw wedi ei baratoi i'n cefnogi i ystyried ffyrdd y gellir darparu amser, lle a chaniatâd i hybu chwarae a ddewisir o wirfodd fel rhan o ddatblygu ac adnewyddu safleoedd. Mae'n darparu ystod o amrywiol offer i gynorthwyo â'r broses.

Adran 1 Cynnal dadansoddiad opsiynau

Gall defnyddio templed dadansoddiad opsiynau helpu cynllunwyr i ddewis y model a'r agwedd orau i'w mabwysiadu er mwyn darparu cyfleoedd chwarae da ar gyfer plant a phobl ifanc.

Templed dadansoddiad opsiynau

Opsiwn 1: Datblygu darpariaeth wedi ei staffio ar y safle

Materion i'w hystyried	Manteision (+1)	Anfanteision (+2)	Sylw
Pa ofodau sydd ar gael ar gyfer chwarae? A oes yna wasanaeth chwarae lleol all gefnogi hyn? Pa adnoddau sydd eu hangen? Beth yw safbwyntiau'r gymuned? Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol?			

Opsiwn 2: Datblygu ardal chwarae ar y safle

Materion i'w hystyried	Manteision (+1)	Anfanteision (+2)	Sylw
Pa ofodau sydd ar gael ar gyfer chwarae? A oes arbenigwr yn lleol allai gefnogi hyn? Pa adnoddau sydd eu hangen? Beth yw safbwyntiau'r gymuned? Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol? Pa sgiliau sy'n bodoli o fewn y gymuned?			

Opsiwn 3: Cynnig integreiddio â gwasanaethau sy'n bodoli eisoes

Materion i'w hystyried	Manteision (+1)	Anfanteision (+2)	Sylw
A oes gwasanaeth chwarae'n lleol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi hyn? Pa adnoddau sydd eu hangen? Beth yw safbwyntiau'r gymuned? Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol? Beth yw'r effaith ar y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes?			

Option 4: Ystyried cyfuniad o ddarpariaeth

Materion i'w hystyried	Manteision (+1)	Anfanteision (+2)	Sylw
Darparu darpariaeth chwarae wedi ei staffio ar y safle Darparu ardal chwarae ar y safle Integreiddio â gwasanaethau sy'n bodoli eisoes			

Adran 2 Ymgysylltu â phlant

Efallai y byddai o gymorth i hwyluswyr gyflwyno eu hunain i deuluoedd ar y safle cyn cynnal unrhyw waith arsylwi neu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn gwbl eglur ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r buddiannau yr hyderwn y bydd y gwaith yn ei sicrhau ar gyfer y gymuned.

O ran safleoedd sy'n bodoli eisoes, mae'n bwysig cynnwys y plant a'r bobl ifanc sy'n byw yno. Gyda safleoedd newydd, mae'n bosibl y byddai prosiect Y Daith Ymlaen, Achub y Plant yn darparu mecaniaeth ar gyfer ymgysylltu.

Gall plant a phobl ifanc helpu i:

- gynnal archwiliad (audit) o sut, ac yn bwysicach pa rannau o'r safle sy'n cael eu defnyddio eisoes. Y plant fydd yn y sefyllfa orau i ddynodi'r potensial ar gyfer chwarae
- dweud wrthym ble arall y bydd y plant a'r bobl ifanc yn treulio eu hamser yn y gymuned leol oddi ar y safle, a'r hyn y byddant yn ei wneud yno – bydd hyn yn ein helpu i gynllunio blaenoriaethau
- dynodi'r llwybrau y byddant yn eu defnyddio i deithio i ac o'r mannau y byddant yn chwarae, neu y gallen nhw chwarae ynddynt oddi ar y safle, a pha gludiant y byddant yn eu defnyddio
- dynodi'r rhwystrau allai atal mwy o ddefnydd o gyfleusterau oddi ar y safle, fel ffyrdd a nentydd yn ogystal â ffiniau cymunedol, bylchau diwylliannol ac ethnig canfyddedig.

Gellir defnyddio'r templed cwestiynau a nodiadau ar gyfer hwyluswyr ar y tudalennau nesaf i ymgysylltu â'r plant.

Templed cwestiynau arolwg barn a nodiadau i hwyluswyr

Nid yw'r esiamplau o atebion isod yn rhestr cynhwysfawr a gall hwyluswyr annog rhagor o ymatebion.

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mae gennyt hawl i ddweud beth yr wyt yn credu ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau fydd yn effeithio arnat ti. Mae'r cwestiynau hyn i'n helpu ni i ddysgu beth wyt ti'n ei feddwl am y mannau y byddi'n chwarae neu'n treulio amser ynddynt gyda dy ffrindiau ger dy gartref.

1. Pa mor aml fyddi di'n chwarae a chymdeithasu gyda dy ffrindiau?

(Nodyn i'r hwylusydd: bydd hyn yn cynnig gwybodaeth all gyfrannu at wybodaeth ynghylch faint o amser y bydd plant yn ei dreulio'n chwarae yn eu cymuned ac ar y safle)

Fe fydda' i'n chwarae'r tu allan gyda ffrindiau bron bob dydd		Fydda' i byth bron yn chwarae gyda ffrindiau'r tu allan	
Fe fydda' i'n chwarae'r tu allan gyda ffrindiau ychydig ddyddiau'r wythnos		Fydda' i ddim yn chwarae gyda ffrindiau'r tu allan	

2. Pan fyddi di'n mynd allan i chwarae, beth fyddi di'n hoffi ei wneud?

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i helpu plant i feddwl am yr hyn y maent yn hoffi ei wneud cyn iddynt ateb y cwestiynau eraill. Gallwch ddewis i beidio â'i ddefnyddio at ddibenion dadansoddi, ond gall fod yn offeryn defnyddiol er mwyn meddwl am yr hyn y gallech ei ddarparu)

Mynd ar gefn beic		Chwarae yn y dŵr	
Sgwrsio a bod gyda fy ffrindiau		Dringo pethau	
Gemau rhedeg a chwrso		Adeiladu cuddfannau	
Chwarae cuddio		Chwarae gemau pêl	
Chwarae milwyr a byddin		Bod yn y coed	
Chwarae yn y mwd		Creu siglenni	
Rholio i lawr bryniau		Pysgota	
Chwilota		Chwilio am weision y neidr a ieir bach yr haf	
Mynd am dro		Creu llwybrau a chyrsiau beics	
Mynd ar antur a fforio		Cael picnic	
Chwilio am bryfetach a phethau		Treulio amser gyda'r oedolion yn fy nheulu	
Chwarae â doliau a phramiau		Bod yn yr awyr iach	
Gwneud tân		Pethau eraill	
Chwilio am eirth, dreigiau, tylwyth teg a phethau			

3. Mae chwarae'n gwneud imi deimlo yn …

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i helpu plant i feddwl am yr hyn y maent yn hoffi ei wneud cyn iddynt ateb y cwestiynau eraill. Gallwch ddewis i beidio â'i ddefnyddio at ddibenion dadansoddi, ond gall fod yn offeryn defnyddiol er mwyn meddwl am yr hyn y gallech ei ddarparu)

Hapus		Bywiog		Trist	
Cyffrous		Dewr		Balch i fod gyda ffrindiau	
Ofnus		Distaw		Balch i fod ar fy mhen fy hun	
Diflas		Tawel		Balch i fod gyda fy nheulu	
Unig		Anturus		Teimladau eraill?	
Ofnus		Swnllyd			

Offer i gynorthwyo

4. Pan fydda' i'n chwarae'r tu allan ar fy safle

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i'ch helpu i bennu i ba raddau y mae plant yn fodlon â chyfleoedd a phrofiadau chwarae lleol. Gallech awgrymu i'r plant y dylent feddwl am eu hatebion i gwestiynau 2 a 3 a gofyn faint y gallan nhw wneud y pethau hyn ger eu cartref)

Fe alla' i wneud y rhan fwyaf o fy hoff bethau		Fe alla' i wneud rhai o fy hoff bethau		Alla' i wneud fawr ddim o fy hoff bethau	

5. Ble yw dy hoff le i chwarae pan nad wyt ti yn yr ysgol?

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i helpu plant i feddwl am yr hyn allai fod yn bosibl – fe ddylen nhw roi tic ar y mannau y maent yn eu hoffi FWYAF, hyd yn oed os nad oes dim o'r rhain yn eu cymdogaeth)

Ar y llain y tu allan i ble rwy'n byw		Y coed gerllaw		Yn y trelar / carafan ble rwy'n byw	
Ar y llain y tu allan i ble mae fy ffrindiau'n byw		Cae pêl-droed neu gae chwaraeon		Canolfan gymunedol neu ganolfan hamdden	
Strydoedd ger fy nghartref		Maes chwarae ysgol		Y traeth, ar lan y môr neu afon gerllaw	
Cae neu lain laswelltog lleol		Ardal chwarae sydd â dŵr neu dywod yno		Rhywle arall?	
Rhywle gyda llwyni, coed a blodau		Parc beicio neu sglefrfyrddio			
Ardal chwarae gyda siglenni, llithrennau a phethau eraill i chwarae arnyn nhw		Mewn hen geir			

6. Ar y safle ble rwyt ti'n byw, pa un o'r rhain sy'n wir?

(Nodyn i'r hwylusydd: awgrymwch i'r plant y dylent feddwl am y mannau hynny yn y cwestiwn uchod a gofyn faint o'r rhain sydd ar gael yn eu cymdogaeth)

Mae llawer o fy hoff fannau i chwarae neu gymdeithasu		Mae rhai o fy hoff fannau i chwarae neu gymdeithasu		'Does fawr ddim o fy hoff fannau i chwarae neu gymdeithasu	

7. Pan fyddi di'n mynd allan i chwarae

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i helpu plant i feddwl i ba raddau y gallant deithio'n annibynnol trwy eu cymdogaeth)

Fe alla' i fynd allan ar fy mhen fy hun		Fe alla' i fynd allan gyda fy ffrindiau		Fydda' i ond yn mynd allan gyda fy mrawd neu fy chwarae	
Fydda' i ond yn mynd allan gydag oedolion		Fydda' i ddim yn mynd allan i chwarae o gwbl			

Offer i gynorthwyo

8. Beth sy'n dy atal rhag chwarae'r tu allan?

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i'ch helpu i ddynodi rhai o'r rhwystrau dros, neu'r rhesymau pam nad yw plant yn chwarae allan yn eu cymdogaeth)

Tydw i ddim yn cael mynd allan i chwarae		Tydw i ddim yn hoffi gwlychu a baeddu	
Rwy'n rhy brysur gyda gwaith cartref		Tydw i ddim yn cael gwlychu a baeddu	
Rwy'n rhy brysur gyda chwarae gemau ar yr Xbox/PS/Wii		Mae gormod o faw cŵn ble rwy'n hoffi chwarae	
Rwy'n rhy brysur gyda chlybiau fel pêl-droed neu bethau eraill		'Does dim i chwarae gydag e' yno	
Fydda' i ddim yn mynd allan i chwarae os yw hi'n bwrw glaw neu'n oer		'Does neb i chwarae â nhw yno	
Fydda' i ddim yn mynd allan i chwarae gan ei bod yn rhy dywyll		Mae'n anodd croesi'r ffordd i gyrraedd yno	
Fydda i ddim yn mynd allan i chwarae oherwydd bwlis		Tydw i ddim yn cael croesi'r ffordd i gyrraedd yno	
Fydda' i ddim yn mynd allan i chwarae oherwydd oedolion eraill		Rhywbeth arall?	

9. Beth sy'n dy atal rhag chwarae'r tu mewn?

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i'ch helpu i feddwl am rai o'r rhwystrau y bydd plant sy'n chwarae'n eu wynebu yn eu gofod trigo lleol ac efallai y gall helpu i ddynodi sut i ymgysylltu â theuluoedd)

Tydw i ddim yn cael		Mae bwyd yn cael ei goginio	
'Does dim digon o le		Rydw i'n rhy aflêr pan fydda' i'n chwarae'r tu mewn	
Mae'r trelar / carafan wedi cael ei glanhau		Rydw i'n rhy swnllyd pan fydda' i'n chwarae'r tu mewn	

10. Beth sy'n dy atal rhag chwarae draw oddi wrth y safle yr wyt yn byw arno?

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i helpu i hysbysu'r math o ddarpariaeth y byddwn yn cynllunio ar ei gyfer)

Mae'n rhy bell i ffwrdd		Gormod o ddadlau	
Mae gormod o draffig		'Does unman i fynd	
Tydi pobl eraill ddim yn hoffi Sipsiwn a Theithwyr		Tydw i ddim yn gwybod ble i fynd	
Gormod o fwlis		Tydw i ddim eisiau	

11. Sut allwn ni dy helpu i chwarae a chymdeithasu'n amlach?

(Nodyn i'r hwylusydd: mae hwn wedi ei ddylunio i'ch helpu i feddwl am fentrau neu gynlluniau allai fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y bydd plant sy'n chwarae'n eu wynebu yn eu hardal leol)

Dod o hyd i syniadau mwy diogel ar gyfer croesi'r ffordd er mwyn mynd allan / teithio o gwmpas		Gofyn i berchnogion cŵn i glirio baw cŵn	
Siarad ag oedolion sy'n dweud wrthyn ni i beidio â chwarae'r tu allan		Helpu fy rhieni i ddeall ei bod hi'n iawn i chwarae'r tu allan	
Ein helpu i ddelio â'r bwlis		Rhywbeth arall?	

Adran 3 Archwiliadau chwarae

Efallai y byddai o gymorth i hwyluswyr gyflwyno eu hunain i deuluoedd ar y safle cyn cynnal unrhyw waith arsylwi neu ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn gwbl eglur ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r buddiannau yr hyderwn y bydd y gwaith yn ei sicrhau ar gyfer y gymuned.

Er mwyn deall yr hyn y gellid ei gynnig, mae'n bwysig ystyried y gymuned leol a'r amgylchedd y mae'r plant yn byw ynddo. O gael amser, lle a chaniatâd i chwarae, bydd plant yn naturiol yn dewis chwarae ble bynnag a phryd bynnag y maent yn dymuno. Unwaith ein bod yn gwybod beth sydd ar gael i'r plant, gellir ei asesu'n erbyn y modd y mae angen i blant chwarae.

Mae archwiliadau chwarae'n dapraru proses ar gyfer mesur yn effeithlon os yw anghenion chwarae plant yn cael eu cyflawni o fewn y gymuned.

Oedolion fel archwilwyr

Wrth i'r cynlluniau ar gyfer datblygu neu ailwampio'r safle yrru yn eu blaen, bydd ystod eang o wybodaeth ar gael eisoes am ddaearyddiaeth, demograffeg a diwylliant y gymuned. Bydd casglu gwybodaeth am ddarpariaeth arall, fel y Sgowtiaid, yn helpu i hysbysu penderfyniadau ynghylch yr hyn gaiff ei gynnig.

Gyda safleoedd sy'n bodoli eisoes, bydd monitro'r modd y caiff y safle ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn ein helpu i ddynodi ei botensial ar gyfer chwarae. Er enghraifft, mae cwestiynau y gellid eu hystyried yn cynnwys:

- Beth sy'n digwydd ar ofod agored ar y safle?
- Beth sy'n digwydd ar ofod ag offer ar y safle?
- Beth fydd y plant yn tynnu tuag ato'n naturiol?
- Pa rannau o'r safle fydd y plant yn mynd iddo'n gyntaf a pha ardaloedd fyddant yn eu hosgoi?

Gellir arsylwi a chofnodi defnydd, neu ddiffyg defnydd, ardaloedd ac adnoddau penodol. Efallai y byddai ardal o'r safle sydd ddim yn cael llawer o ddefnydd yn elwa o gael ei chyfoethogi ar gyfer y synhwyrau, sblash o liw neu rannau rhydd, er mwyn dangos yn weithredol i'r plant bod hwn yn fan ble y gallant chwarae.

Mae patrwm safle, ble y mae pethau wedi eu lleoli, a'r modd y bu i'r plant addasu llecynnau a symud pethau o gwmpas, i gyd yn gliwiau i angen plant i chwarae a'u dewisiadau unigol.

Gall arsylwadau rheolaidd o'r plant dyfu'n drefn arferol fydd yn galluogi creu cofnod o ymddygiad chwarae naturiol plant. Gall defnyddio papur a phensel, ffôn a thâp llais i gyd fod yn ddulliau defnyddiol ar gyfer cofnodi'r eiliad a 'does dim rhaid i'r broses yma fod yn un ymwthgar. Ddylai'r angen i gasglu gwybodaeth fyth ymyrryd yn sylweddol â hawl plant i chwarae.

Yn ogystal â chynllunio pryd a ble y cynhelir arsylwadau, os yw'r offer neu ddulliau arsylwi wrth law, bydd modd dal a chofnodi digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd.

Waeth pa ddull a ddefnyddir ar gyfer arsylwi, dylid cofnodi'r wybodaeth ganlynol:

1. Beth sy'n cael ei arsylwi a pham. Er enghraifft, gwylio'r modd y bydd plant yn defnyddio darn arbennig o boblogaidd o offer i ddysgu pam
2. Y dyddiad
3. Yr amser
4. Y lleoliad
5. Cofnod o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd (nid yr hyn yr ydym yn ei ddychmygu sy'n digwydd)
6. Cofnod o'r hyn sy'n cael ei ddweud a gan bwy.

Wedi'r digwyddiad, mae'n ddefnyddiol i fyfyrio ar yr hyn a arsylwyd, dechrau dehongli yr hyn a welwyd, a'r hyn y mae'n ei olygu o ran yr archwiliad.

Tîm Chwarae Plant, Dinas a Sir Abertawe

Plant fel archwilwyr

Bydd plentyn sy'n chwarae'n dehongli man mewn modd cwbl naturiol a greddfol gan wneud newidiadau iddo, neu'n syml iawn yn symud ymlaen gan nad yw'r safle'n cynnig, neu ei fod wedi gorffen cynnig, yr hyn y mae ei angen. I'r bobl hynny sy'n gyfrifol am archwiliadau mannau chwarae, y plant fydd y ffynhonnell wybodaeth mwyaf dibynadwy. Wrth archwilio man chwarae, mae'n bwysig cofio mai gweithgaredd oedolion yw hon nid gweithgaredd plant. Mae'n bwysig peidio â thresmasu ar amser y plant, ond os ydyn nhw i deimlo bod y sefyllfa chwarae'n perthyn iddyn nhw, mae eu cyfranogaeth yn fuddiol wrth gefnogi ymdeimlad o berchenogaeth.

Bydd rhai plant, yn syml, yn mwynhau cael chwarae rhan. Bydd eu chwilfrydedd naturiol yn peri iddynt ofyn beth sy'n cael ei wneud pan welant oedolion yn cyfrif adnoddau ac efallai y byddant am helpu. Mae nifer o wahanol ffyrdd y gall plant, heb unrhyw orfodaeth a gyda dim ond ychydig o arweiniad, gynorthwyo gydag archwilio'r man chwarae.

Bydd edrych ar fapiau gyda'r plant yn ffordd dda o ddysgu am ddaearyddiaeth ardal a dechrau deall sut y bydd plant yn chwarae'n yr ardal. Mae'n bwysig cofio efallai y bydd hyn yn datgelu lleoedd cyfrinachol mae plant yn ei werthfawrogi ar gyfer chwarae.

Mae dulliau eraill fydd yn cynnwys plant yn cynnwys:

- Tynnu llun o'r hyn y maent yn hoffi ei wneud
- Cyfweld plant eraill am eu diddordebau
- Cynhyrchu a chwblhau holiaduron gyda'u cyfoedion
- Tynnu lluniau â chamra o'r hyn sy'n digwydd yn y man chwarae.

Bydd mynd allan i'r gymuned, arsylwi plant yn chwarae mewn modd sensitif a sgwrsio â nhw'n helpu hefyd wrth gasglu gwybodaeth gan blant.

Wrth gynnwys y plant mewn unrhyw fath o archwiliad, mae'n bwysig cofio nad ydynt yn teimlo eich bod yn addo rhywbeth iddynt na ellir ei drosglwyddo mewn gwirionedd. Bydd gofyn ystod o gwestiynau i blant ac annog eu cyfranogiad yn helpu'r plant i weld y posibiliadau. Mae hwn yn gyfnod mapio fydd yn cynnwys dehongli'r safle a'r hyn sy'n digwydd ynddo er mwyn cefnogi'r broses llunio penderfyniadau.

Os, ar unrhyw adeg o'r broses, y caiff negeseuon cymysg eu cyfleu ynghylch adnoddau neu ddatblygu'r safle ar gyfer y dyfodol, bydd y plant yn teimlo nad ydynt yn rhan o'r broses a chaiff eu ymdeimlad o berchenogaeth ei niweidio. Bydd plant â gwahanol lefelau o ddealltwriaeth yn dehongli pethau'n wahanol, felly bydd sicrhau bod unrhyw gyfranogiad yn briodol i'w lefel datblygiad yn helpu i leihau'r risg o gamddealltwriaeth.

Adran 4 Dynodi'r potensial i ofod hyrwyddo chwarae

Rhestr wirio archwiliad man chwarae

Mae archwiliad man chwarae'n offeryn gwerthfawr i'w ddefnyddio wrth ddynodi'r potensial ar gyfer chwarae. Os yw plant yn defnyddio'r ardal ar gyfer chwarae eisoes, fe geir tystiolaeth o hyn. Mae'r rhestr wirio wedi ei dylunio i helpu i ddynodi ble y mae plant yn chwarae, beth y maent yn ei wneud a pha mor aml y maent yn defnyddio'r ardal i chwarae. Dylid nodi bod elfennau sy'n ymddangos fel pe baent yn arwyddion esgeuluster, fel sbwriel, canghennau wedi torri ar goed, a graffiti, mewn gwirionedd yn aml yn arwyddion o ddefnydd cadarnhaol gan blant.

Yn ogystal, bydd archwiliad man chwarae yn helpu mewn ffyrdd eraill. Yn gyntaf, mae'n elfen o'r broses cyfranogaeth ac ymgysylltu a gall ein cynorthwyo i gasglu tystiolaeth i gefnogi'r hyn y mae'r gymuned a'r plant yn ei ddweud wrthym. Yn ail, o'i gynnal yn rheolaidd (er enghraifft, bob chwe mis), gellir ei ddefnyddio i helpu i fonitro sut, a pha mor aml, y mae'r man chwarae'n cael ei ddefnyddio.

Sut i gynnal archwiliad man chwarae

Bwriedir i'r templed Archwiliad man chwarae ar y tudalennau canlynol gael ei defnyddio ar gyfer cynnal arsylwad ddylai bara am o leiaf hanner awr. Yn ddelfrydol, dylid cynnal arsylwadau ar wahanol adegau o'r dydd er mwyn gweld sut y bydd gwahanol grwpiau oedran yn defnyddio'r lleoliad. Er enghraifft, gellid cynnal arsylwad ar y penwythnos neu ar ôl amser ysgol ac un arall yn ystod y dydd i arsylwi plant dan oedran ysgol yn defnyddio'r safle gyda'u rhieni neu eu gwarchodwyr. Bydd dewis pryd i gynnal arsylwadau'n dibynnu ar y safle.

Ceir disgrifiad manylach o nifer o ymddygiadau chwarae isod all helpu gyda'r arsylwad. Ceir ymddygiadau chwarae y gellir eu dynodi heb fod angen gweld y plant yn chwarae. Er enghraifft, os yw plant yn ymgynnull ar gerrig mawr neu ardaloedd eistedd, bydd ôl traul ac ôl traed neu dyllau wedi eu palu â'r traed neu â ffyn.

Os yw'r safle'n fan deniadol i blant mae'n debyg bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at hyn. Dywedodd plant wrthym bod materion fel pa mor dda yw'r goleuo o amgylch y safle, pa mor agos yw'r lleoliad i gartrefi ac os oes mannau i gysgodi neu beidio, yn cyfrannu at ymdeimlad o fod yn ddiogel ac yn apelio at ystod oedran eang. Os yw hyn yn wir, bydd angen dylunio'r safle mewn modd sy'n darparu ar gyfer yr ystod oedran eang yma ac ar gyfer demograffig newidiol.

Offer i gynorthwyo

Mae gan bob plentyn wahanol anghenion a dymuniadau chwarae all newid dros amser. Nid yw rhannu pobl yn grwpiau oedran neu'n grwpiau eraill, o reidrwydd, yn fuddiol (er efallai y bydd rhai pobl angen cefnogaeth penodol i gyflawni eu anghenion eu hunain). Mae rhyngweithio rhwng pob grŵp oedran ac aelodau o gymdeithas yn broses allweddol sy'n cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i deimlo'n fwy hyderus ynghylch chwarae a chymdeithasu tu allan. Bydd ffurfio perthnasau â phlant a phobl ifainc eraill yn cynnig cyfle i rannu gwybodaeth am drigolion a daearyddiaeth cymdogaethau ac i rannu chwedlau lleol. Er enghraifft, traddodiadau chwarae, rheolau gemau, mannau i chwarae – gallai enghraifft o hyn fod yn hen bolyn lamp a ddefnyddiwyd ers cenedlaethau fel y bas ar gyfer chwarae gemau fel chwarae cuddio neu *Faint o'r Gloch Mistar Blaidd?*

Pethau i gadw llygad amdanynt

Cerdded a theithio trwy'r man chwarae – Os oes llwybr yn rhedeg trwy'r safle efallai y bydd plant yn chwarae wrth iddynt symud trwy'r ardal, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n bwriadu aros yno. Gall ymddygiadau gynnwys neidio oddi ar ymyl y palmant ar feic neu sgwter, siglo ar ganghennau coed, neidio dros bethau, rhedeg i lawr llethr, rhedeg yn rhydd / parcour. Gellir ystyried camau fyddai'n newid y modd y bydd plant yn teithio trwy'r safle, fel newid cyfeiriad llwybr, gan y gallai hyn annog rhagor o gyfleoedd, neu gyfleoedd chwarae gwell.

Eistedd ac ymgasglu – Hyd yn oed os nad oes ardaloedd eistedd ffurfiol, ceir mannau ble y bydd plant yn dewis ymgasglu; chwiliwch am arwyddion traul ar y ddaear ger ardaloedd eistedd, o dan fframiau dringo, wrth fôn coed / cerrig neu eitemau a gludwyd i'r safle fel darnau o garped, cretiau neu fwcedi y gellid eu defnyddio fel seddi. Ble nad oes cyfle amlwg yn bodoli ar gyfer ardaloedd eistedd ffurfiol neu fannau cyfarfod ar hyn o bryd, bydd creu y rhain yn helpu i wneud y safle'n fan mwy cymdeithasol y gall ystod eang o oedrannau ei ddefnyddio – o deuluoedd â phlant iau i blant hŷn sy'n cwrdd i gymdeithasu â'u ffrindiau. Dylid gosod seddi mewn cylchoedd, neu ar ffurf U neu L er mwyn annog chwarae cymdeithasol – nid yw gosod meinciau mewn rhes yn adlewyrchu'r modd y bydd pobl yn hoffi ymgasglu a chymdeithasu.

Reidio (beiciau, sgwteri, sglefrfyrddau) – Gellir arsylwi'r modd y bydd plant yn defnyddio beiciau ar y safle – yw'r beiciau'n cael eu defnyddio fel cludiant i'r safle'n unig neu ydyn nhw'n cael eu marchogaeth ar neu o amgylch y safle? Pa nodweddion naturiol sy'n cael eu defnyddio i reidio a neidio drostyn nhw ac i sgidio arnyn nhw? A oes tystiolaeth bod plant wedi bod yn adeiladu yma – fel rampiau mwd a phren ac unrhyw welliannau a wnaethpwyd i gefnogi cyfleoedd chwarae ar olwynion mewn modd anffurfiol?

Defnyddio nodweddion naturiol (er enghraifft coed, llwyni, twmpathau a bryniau) – Dylid ystyried pa nodweddion naturiol sy'n cael eu defnyddio er enghraifft gallai mynedfeydd anffurfiol i ardaloedd coediog, ac arwyddion o sbwriel neu eitemau a gludwyd i'r safle o dan goed / llwyni, arddangos gweithgarwch adeiladu cuddfannau neu fannau cyfrinachol. Bydd ôl traul ar risgl neu ar fôn coed a changhennau wedi torri ar goed, yn dystiolaeth bod plant yn dringo coed yma, fel y mae planciau pren, rhaffau a defnydd i fyny yn y coed.

Chwarae â'r elfennau – Dylid ystyried tystiolaeth os yw plant yn cael mynediad i amrywiaeth o elfennau naturiol y gellir chwarae â hwy. Mae'r byd naturiol yn destun rhyfeddod i blant a dylent gael cyfleoedd i brofi dŵr, daear (mwd), tân ac awyr. Dylid ystyried os yw'r safle'n cynnig mynediad i rai neu bob un o'r elfennau yma. Mae'n bwysig bod modd ymgorffori'r elfennau hyn gan ddefnyddio agwedd rheoli risg synhwyrol.

Defnyddio'r synhwyrau (blas, arogl, golwg, sŵn, gwead) – Gellir arsylwi sut y bydd plant yn symud trwy'r safle. Mae crensian dail, rhedeg tywod trwy'r bysedd, cyffwrdd rhisgl coeden, teimlo metal oer, rholio ar y gwair, chwarae â chysgodion, i gyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae â'r synhwyrau.

Symud – Dylid ystyried tystiolaeth o sut y bydd plant yn symud tra eu bod ar y safle. Dylid cael cyfleoedd amrywiol ar gyfer symud mewn gwahanol ffyrdd yn y man chwarae, er enghraifft rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio, siglo, llithro, dawnsio a chwrso.

Chwarae gwyllt – Bydd plant yn dysgu am eu cyfyngiadau corfforol a'u cryfderau eu hunain, a rheoli dicter a ffiniau personol, trwy chwarae gwyllt. Gall hyn fod ar amrywiol ffurfiau'n cynnwys chwarae ymladd, plismyn a lladron, cwrso a chwarae cuddio. Bydd yn gwbl eglur o'u chwerthin, gwên ar wyneb a mynegiant wyneb arall mai gêm yw hon, a bod y plant yn ei thrin fel gêm.

Risg a her (corfforol) – A yw'r plant yn profi lefelau cynyddol o her? 'Does dim angen i hyn fod yn weithgarwch llawn risg, gall fod mor syml â gweld plentyn ifanc yn symud ymlaen o neidio oddi ar ris isaf ysgol, i neidio oddi ar yr ail a'r trydydd gris. Ble fo cyfleoedd yn bodoli i blant fentro'n gorfforol, fel arfer byddant yn chwilio am ffyrdd i wella a chynyddu'r her. Er enghraifft, bydd ramp beiciau wedi ei chreu o frics a phlanciau pren yn fuan iawn yn gweld rhagor o friciau'n cael eu hychwanegu ati wrth i hyder y plant dyfu.

Chwarae â mân offer / rhannau rhydd - Efallai y gwelir tystiolaeth bod plant yn dod â mân gelfi i'r safle er mwyn cyfoethogi eu chwarae. Gallai hyn fod yn rhaff ar gyfer creu siglen neu'n bren ar gyfer codi cuddfan, ceir bach i greu ffordd yn y mwd neu ddefnyddio elfennau naturiol fel cerrig, blodau, dail ac aeron i greu bydoedd bychain, ryseitiau swyn neu'n syml ddigon i greu pentwr neu ar gyfer dethol a dosbarthu eitemau.

Chwarae â hunaniaeth – Bydd plant yn chwarae â'u hunaniaeth a'u golwg. Gallai hyn gynnwys gemau chwarae rôl fel mam a babi, doctoriaid a nyrsys, milwyr, 'power rangers' neu newid eu golwg trwy roi mwd ar eu wynebau, gemau gwisgo i fyny neu dynnu wynebau.

Templed archwiliad man chwarae

Enw'r safle:			Arsylwyd gan:	
Arsylwad:	Diwrnod a dyddiad yr arsylwad:	Cyfnod arsylwi (e.e. hanner tymor / ar ôl ysgol / yn ystod diwrnod ysgol / penwythnos / gyda'r nos)	Amser y cyfnod arsylwi:	Tywydd:
Prif nodweddion y safle:	Disgrifiad cryno o'r prif nodweddion, yn cynnwys mynedfeydd (fel llethrau, coed, llwyni, gwylfâu, lleoedd i guddio, pethau i ddringo arnynt neu drostynt, seddau a mannau cyfarfod, ardaloedd gwastad; yn ogystal ag unrhyw nodweddion chwarae gwneuthuredig sydd wedi eu gosod yno). Dylid nodi unrhyw arwyddion o ddefnydd penodol e.e. glaswellt wedi treulio, canghennau wedi eu torri, olion olwynion beics, sbwriel, graffiti. Gellir nodi manylion pellach am y rhain o dan unrhyw arsylwadau gweithgarwch.			
Defnydd gan blant ac oedolion: (niferoedd)	Gwryw:	Benyw:	Bras amcan oedran: (e.e. dan 5, 5-8, 8-13, 13-15, 15+)	Cyfanswm:
Plant / pobl ifainc mewn grŵp:				
Plant / pobl ifainc unigol:				
Wedi eu hebrwng gan oedolion:				
Oedolion unigol:				

Arsylwyd gweithgarwch ym mhresenoldeb plant a phobl ifainc:	Os nad ydynt yn bresennol, cofnod o arwyddion bod plant a phobl ifainc wedi bod yno ac yn gwneud defnydd o'r safle:
Cerdded, teithio trwy'r man chwarae:	
Eistedd, ymgasglu:	
Reidio beic, sgwter, sglefrfwrdd:	
Defnyddio nodweddion naturiol (e.e. coed, llwyni, twmpathau, bryniau):	
Chwarae â'r elfennau (dŵr, daear [mwd], tân, awyr):	
Defnyddio'r synhwyrau (blas, arogl, golwg, sŵn, gwead):	
Symud (e.e. rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio):	
Chwarae gwyllt:	
Risg a her (corfforol):	
Chwarae â mân offer / rhannau rhydd:	
Chwarae â hunaniaeth:	

Cynllun gweithredu man chwarae

Argymhellion ar gyfer datblygu a chyfoethogi'r safle er mwyn mwyafu'r lefel 'chwaraeadwy', yn cynnwys unrhyw gamau ar gyfer gwarchod y modd y mae plant a phobl ifainc yn defnyddio'r safle ar hyn o bryd, gan gyfeirio at weithgareddau a arsylwyd.

Camau ar gyfer datblygu a chyfoethogi mannau chwaraeadwy:	Camau ar gyfer gwarchod mannau chwaraeadwy:
Er enghraifft – Mae plant yn defnyddio'r man coediog uchel gerllaw'r man chwarae ar gyfer adeiladu cuddfannau a chwarae tic. Mae mynediad i'r ardal yma wedi ei rwystro ar hyn o bryd gan ffens wifrau sydd wedi ei gwasgu i lawr – edrych ar ffurfioli mynediad i'r ardal yma.	**Er enghraifft** – Mae'r siglenni sydd yma eisoes angen eu hadnewyddu, ond maent yn cael llawer iawn o ddefnydd. Angen eu hadnewyddu a'u cynnwys yn y cynllun newydd ar gyfer y safle. Ystyried arwyneb diogel mwy naturiol (tywod neu risgl).

Cynllun gweithredu anghenion chwarae

Sut mae'r arsylwadau'n cyfrannu at dystiolaeth am yr hyn y mae'r plant / y gymuned ei eisiau?

Tystiolaeth o angen	Camau gweithredu
Er enghraifft – Mae arsylwadau'n dangos bod y plant yn mwynhau dringo coed ar hyd ymyl y safle.	**Er enghraifft** – Sicrhau bod y dylunio'n gofyn i'r dylunydd chwarae sicrhau bod mynediad i'r coed.

Adran 5 Gweithio â rhieni a theuluoedd

Mae traddodiadau diwylliannol yn hynod o bwysig i Sipsiwn a Theithwyr a gall deall rhai o'r rhain gyfrannu llawer tuag at ffurfio perthnasau parchus, llawn ymddiriedaeth.

Bydd gan wahanol grwpiau o Sipsiwn a Theithwyr wahanol draddodiadau. Mae'r elfennau sy'n tueddu i fod yn bwysig i bawb yn cynnwys:

- Y teulu
- Gofalu am blant, yr henoed neu'r sâl
- Glendid
- Crefydd
- Teithio.

Fel arfer bydd Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn ffyrdd annibynnol a hunangynhaliol, ble y byddant yn gofalu am eu hunain. Yn aml, bydd gan ddynion a menywod wahanol rolau, gyda menywod yn gofalu am y cartref a dynion yn mynd allan i weithio, yn aml iawn yn eu busnesau eu hunain.

Gall darparwyr chwarae a'r blynyddoedd cynnar eu cael eu hunain yn gweithio gydag ystod oedran eang iawn o blant, ble byddant yn gweithio â nifer o frodyr a chwiorydd neu grwpiau o blant ar yr un pryd. Gall hyn helpu i gefnogi cyfranogiad rhieni neu aelodau eraill o'r teulu a helpu i dawelu eu meddyliau.

Pethau i'w hystyried tra'n ymgysylltu â rhieni a theuluoedd

Cofiwch ddangos parch tuag at unrhyw achlysur arbennig, profedigaethau a theithio, a gofynnwch i'r teuluoedd os hoffen nhw i'r ddarpariaeth chwarae barhau ar yr adegau yma.

Efallai bod yr ardal yn ddieithr i'r teulu; efallai na fydd gan rieni unrhyw wybodaeth leol am wasanaethau ac y byddant yn cyrraedd heb rwydwaith cefnogol neu ymdeimlad hyderus o berthyn o fewn y gymuned.

Efallai na fydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n rieni wedi profi gwasanaethau chwarae neu'r blynyddoedd cynnar eu hunain ac efallai na fyddan nhw'n gyfarwydd neu'n gyfforddus gydag o.

Mae'n bosibl y bydd gan rieni sy'n Sipsiwn a Theithwyr bryderon am y posibilrwydd y bydd eu plant yn profi rhagfarn neu hiliaeth. Mae'n bosibl y byddant yn bryderus ynghylch agweddau rhieni eraill a gweithwyr proffesiynol. Gallai'r pryderon hyn gael eu dwysáu os oes gan rieni atgofion anhapus o'u profiadau chwarae eu hunain.

Efallai y bydd rhai rhieni'n teimlo nad ydyn nhw'n cyflawni eu rôl trwy anfon eu plentyn i leoliad chwarae neu flynyddoedd cynnar.

Weithiau bydd rolau rhyw traddodiadol yn dylanwadu os yw rhieni'n cefnogi chwarae eu plant ai peidio. Efallai y bydd mamau am gadw plentyn gartref am gyn hired â phosibl. Gall hyn gael ei ddylanwadu gan ymdeimlad o hunaniaeth cadarnhaol o fewn eu cymuned sy'n gysylltiedig â bod yn fam. Weithiau, bydd yn well gan dadau i'w bechgyn beidio â mynychu lleoliadau chwarae, ond i aros gyda nhw er mwyn dysgu 'rôl diwylliannol'.

Tîm Chwarae Plant, Dinas a Sir Abertawe

Cynghorion ar gyfer gweithwyr chwarae

- Sicrhewch bod eich agwedd yn un hamddenol a didaro
- Byddwch yn barod ar gyfer sefyllfaoedd annisgwyl
- Ewch ar hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr
- Sicrhewch fod gweithwyr chwarae newydd yn cael eu ymsefydlu a'u cefnogi'n drylwyr
- Sicrhewch ddealltwriaeth o anghenion unigolion o fewn grwpiau o blant allai gael eu 'graddio'
- Gwrandewch ar anghenion y gymuned
- Sicrhewch ddealltwriaeth o reolau'r safle, yn enwedig o ran diogelwch (fel ymarferion tân)

Adran 6 Gweithio â'r gymuned ehangach

Tra'n ystyried yr opsiynau ar gyfer darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, mae'n bosibl iawn y bydd nifer o unigolion a grwpiau'n dod ynghyd i gynllunio'r trefniadau.

Mae'n werth cysylltu â'r Cyngor Tref neu'r Cyngor Cymuned a mudiadau eraill yn yr ardal, yn cynnwys adrannau eraill yr awdurdod lleol, i weld pa ddarpariaeth chwarae arall allai fod ar gael yn lleol a pha gymorth y gallant, efallai, ei gynnig.

Mae gan y mwyafrif o Awdurdodau Lleol Swyddog Chwarae a cheir cymdeithasau chwarae rhanbarthol ar draws Cymru. Mae'n bosibl y gallant helpu gyda chyngor am yr ystod o ddarpariaeth chwarae y gellir ei ddatblygu a'i hyrwyddo gan ddefnyddio safleoedd sy'n bodoli eisoes. Efallai y gallant gynnig sesiynau tymor byr wedi eu staffio. Mae'n bosibl y gall timau darpariaeth chwarae wedi ei staffio, yn benodol, ddarparu cyngor am bryderon ynghylch ofn difrod a fandaliaeth. Efallai y gallent hefyd helpu i drefnu digwyddiad chwarae ar y safle er mwyn cynorthwyo i hyrwyddo chwarae ac i ateb cwestiynau allai godi.

Efallai y byddai cynnal digwyddiad cymunedol yn ffordd dda i helpu rhieni ac eraill i ddeall beth yw'r cynlluniau a sut y gallant helpu. Yma, gellir rhannu syniadau a gellir trafod y gofod fydd ar gael i'r plant ar gyfer eu chwarae rhydd eu hunain.

Efallai y byddai hwn yn gyfle da hefyd i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae i rieni a'r gymuned ehangach, a thawelu unrhyw ofnau allai fod ganddynt.

Sgiliau

Edrychwch ar y sgiliau o fewn y grŵp. A oes unrhyw fylchau mewn gwybodaeth allai alw am gymorth arbenigol? Efallai y bydd angen gofyn am gefnogaeth i ddelio â bylchau sgiliau penodol.

Cofnodi rolau a chyfrifoldebau

Bydd angen ystyried pwy fydd yn derbyn cyfrifoldeb uniongyrchol am elfennau o'r broses ddylunio a datblygu a'r gwaith rheoli a cynnal a chadw yn y tymor hir. Gellir diffinio'r rhain mewn dogfen a elwir yn Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MCDd) a arwyddir gan y partneriaid perthnasol. Ceir enghraifft o MCDd ar y dudalen nesaf, a gellir ei addasu i ateb anghenion. Efallai y bydd angen datblygu dau MCDd – un ar gyfer y cyfnod dylunio a datblygu ac ail un ar gyfer rheoli a chynnal a chadw, gan ei bod yn bosibl y bydd y rolau a'r unigolion dan sylw'n wahanol.

Does dim angen i'r MCDd fod yn ddogfen gymhleth ond mae'n arfer da i ddefnyddio'r penawdau a rhai o'r pwyntiau yn yr esiampl fel canllaw.

Partneriaethau

Mae MCDd yn cynnig modd ar gyfer rhannu dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae'n bwysig sicrhau ei bod yn gwbl eglur beth fydd rôl pob person yn y grŵp a phwy fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am elfennau allweddol fel rhentu ar brydles, cynnal a chadw ac archwilio.

Templed archwiliad sgiliau

Sgiliau angenrheidiol	Pwy sy'n meddu ar y sgiliau yma?
Arweinyddiaeth	
Goruchwylio gweithwyr	
Adeiladu tîm	
Rheoli amser	
Rheoli gwrthdaro	
Rheoli newid	
Rheoli prosiect	
Monitro gwaith	
Gwerthuso gwaith	
Sgiliau gweinyddol	
Gwybodaeth chwarae arbenigol	
Gwybodaeth gofal plant arbenigol	
Sgiliau cyhoeddusrwydd	
Ysgrifennu adroddiadau	
Trefnu digwyddiadau	
Codi arian	
Asesu / rheoli risg	
Cynllunio a dylunio	
Adeiladu	
Tirlunio	
Cynnal a chadw ac atgyweirio	

Offer i gynorthwyo

Templed memorandwm cyd-ddealltwriaeth

Cyflwyniad

Nod y prosiect yw gweithio ar y cyd i sicrhau bod safle _____ yn addas a hygyrch ar gyfer plant a phobl ifainc yn y gymuned i'w defnyddio i chwarae

(Nodwch enw a chyfeiriad y safle yma)

_____

Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yma yw diffinio'r dull gweithio, a rolau a chyfrifoldebau aelodau-sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i oruchwylio, cefnogi a sicrhau cynnal a chadw'r safle, gan gyfrannu at ei gynaladwyedd yn y tymor hir.

Rôl y bartneriaeth yw cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw ar safle _____ er mwyn sicrhau bod modd i'r safle barhau i gefnogi a bod yn effeithlon wrth gyflawni anghenion chwarae plant a phobl ifainc. Trwy gynnal asesiadau risg-budd, caiff unrhyw beryglon diangen eu lleihau trwy gefnogi'r camau angenrheidiol, yn cynnwys cwblhau gwiriadau, atgyweiriadau, ac addasiadau amgylcheddol. Mae aelodau'r grŵp wedi gwneud ymrwymiad i gyfrannu at awyrgylch o ddiffuantrwydd, cyfranogaeth weithredol a dealltwriaeth o anghenion penodol pob mudiad a maes.

Pleidiau sy'n llunio'r cytundeb

Y tirfeddianwr / unrhyw bleidiau eraill sy'n gweithio i gefnogi'r man chwarae plant yma yw:

_____

_____

Dulliau gweithio

1) _____ fydd yn derbyn y cyfrifoldeb pennaf am reoli'r safle a bydd yn gweithio â phartneriaid i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn gywir a'i fod yn addas i gefnogi anghenion chwarae plant. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cyllideb i gefnogi unrhyw raglen cynnal a chadw.
2) Bydd _____ yn darparu gofalwr i sicrhau y cynhelir archwiliad dyddiol / wythnosol o'r safle. Bydd hyn yn cynnwys gwaredu unrhyw sbwriel diangen ac archwiliad gweledol o unrhyw offer chwarae ar y safle am olion traul. Caiff unrhyw bryderon eu cofnodi'n briodol, ynghyd ac unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. Bydd hyn yn llunio rhan o unrhyw asesiad risg-budd a wneir.
3) Caiff asesiadau risg-budd eu cwblhau a'u cadw ar ffeil gan _____ a chaiff camau gweithredu penodol eu rhannu â staff priodol a phleidiau allanol sy'n cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.
4) Cynhelir cyfarfodydd (gaiff eu cynnal bob _____) â phleidiau allanol priodol sy'n cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw, a byddant yn cynnwys rhannu unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.
5) Bydd cyfarfodydd yn dynodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni unrhyw gamau gweithredu y dynodwyd y bydd eu hangen i gefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.
6) Bydd gofyn i bleidiau allanol priodol gyfrannu at unrhyw asesiadau risg-budd a wneir.
7) Bydd pleidiau allanol priodol yn cyfrannu at gynnal a chadw'r man chwarae trwy sicrhau y caiff camau gweithredu penodol a ddynodir eu cyflawni (er enghraifft torri gwair, torri cloddiau)
8) Bydd pleidiau allanol priodol yn cymryd camau i gefnogi cyfrannu at gyllideb a / neu adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.

Roles and responsibilities

Mudiad – Pwy?	Rôl – Beth?	Cyfrifoldeb

Datganiad

Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn cytuno i'r trefniadau yn y ddogfen hon.

Arwyddwyd _____ Dyddiad _____

Polisi chwarae safle

Bydd mabwysiadu polisi chwarae safle yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ddarparu cyfleoedd cyfoethog ar gyfer plant a phobl ifanc i chwarae a chymdeithasu. Bydd polisi chwarae'n datgan y gwerth y mae'r gymuned yn ei osod ar blant a phobl ifanc.

Templed o bolisi chwarae safle

Mae'r safle hwn yn cydnabod pwysigrwydd gweld pob plentyn sy'n byw yma, ac unrhyw un sy'n ymweld â nhw, yn cael digon o amser a mannau da i chwarae'n rhydd fel rhan o'u diwrnod.

I blant, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Mae chwarae'n cyfrannu tuag at iechyd, lles a hapusrwydd plant yn ogystal â'u dysg a'u gallu i ddysgu. Fydd rhai plant ond yn cael cyfle i chwarae â'u ffrindiau ar y safle. Yn bwysicaf oll, mae chwarae'n cyfrannu at allu plant i ffynnu a goroesi.

Rydym yn credu y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol iawn i fywydau plant trwy werthfawrogi eu ysfa a'u awydd i chwarae a darparu ar gyfer ystod eang o gyfleoedd chwarae ar y safle.

Mae'r safle hwn yn cydnabod y bydd plant yn naturiol yn creu a chwilio am sefyllfaoedd heriol; tra'n gwneud y gorau o'u chwarae mae'n bosibl y caiff rhai plant ddamweiniau neu y byddant yn baeddu, gwlychu neu gael siom. Rydym yn cydnabod bod rhaid i unrhyw risg posibl o niwed i blant gael ei gydbwyso â'r potensial am les allai godi o'u gweld yn cymryd rhan mewn ffurf penodol o chwarae. Byddwn yn gwneud ein gorau i osgoi gweld plant yn dioddef niwed corfforol neu emosiynol difrifol trwy reoli'r cyfleoedd chwarae y byddwn yn eu darparu'n ofalus.

Mae'r safle hwn yn credu bod agwedd oedolion tuag at, a'u dealltwriaeth o, ymddygiad chwarae plant yn cael effaith sylweddol ar ansawdd y cyfleoedd chwarae gaiff eu cynnig yn, ac oddi ar, y safle.

Tîm Chwarae Plant, Dinas a Sir Abertawe

Adran 7 Egwyddorion dylunio mannau chwarae

Yn dilyn datblygu partneriaeth a chynnwys pobl leol mewn cynlluniau ar gyfer y man chwarae, bydd angen inni ystyried y broses ddylunio.

'Bydd meysydd chwarae plant ym mhob cwr o'r DU yn aml iawn yn edrych yn hynod o debyg, a gall y broses ddylunio gael ei gorbwyso gan ragdybiaethau ac ystradebau. Bydd maes chwarae sy'n cynnwys dim ond offer sylfaenol, ffensys ac arwynebau diogelwch rwber yn darparu ar gyfer ystod cyfyngedig iawn o brofiadau chwarae. Mae cred gyffredin wedi datblygu mai dyma sut y dylai ardaloedd chwarae edrych." (*Design for Play*, 2009)

10 Egwyddor Dylunio

Ceir canllawiau manwl ar y broses dylunio mannau chwarae yng nghyhoeddiad Play England: *Design for Play*. Mae'n amlygu 10 egwyddor ar gyfer dylunio mannau chwarae llwyddiannus ac mae'n nodi bod mannau chwarae llwyddiannus:

1) **yn unigryw** – fyddan nhw ddim yn dod yn syth allan o gatalog ac maent wedi eu dylunio i ymdoddi i'w amgylchoedd.
2) **wedi eu lleoli'n dda** – byddant wedi eu lleoli ble y bydd y cyfle gorau iddynt gael eu defnyddio, yn agos i gartrefi a llwybrau diogel ar gyfer cerdded a seiclo.
3) **yn defnyddio elfennau naturiol** – coed a llwyni, glaswellt, mwd, tywod, cerrig a chreigiau, tirlunio – bydd y rhain i gyd yn annog ystod o wahanol fathau o chwarae.
4) **yn darparu ystod eang o brofiadau chwarae** – bydd mannau chwarae ag ardaloedd eistedd, llochesi, mannau i greu a digon o le i redeg o amgylch yn darparu gwerth chwarae gwell o lawer na chwpwl o ddarnau o offer o fewn ffin cyfyng.
5) **yn hygyrch i blant anabl a phlant sydd ddim yn anabl** – 'dyw hyn ddim yn ymwneud â darparu mynediad i gadeiriau olwyn yn unig. Bydd elfennau naturiol yn cynnig cyfle i ddeffro'r synhwyrau; bydd pyllau tywod a mwd yn darparu ardaloedd ble y gall plant sy'n cael trafferth i symud ymgysylltu â'r byd naturiol, a bydd llethrau serth yn cynnig her i'r rheini fydd yn treulio eu bywydau ar dir gwastad.
6) **yn ateb anghenion y gymuned** – fe gaiff, ac fe ddylai, man chwarae gael ei ystyried fel safle ar gyfer y gymuned gyfan. Bydd rhieni a theidiau a neiniau yn cwrdd ac ymgynnull yno, felly cofiwch gynnwys y gymuned gyfan yn natblygiad y safle.
7) **yn caniatáu i blant o wahanol oedran chwarae â'i gilydd** – yn aml, caiff bywyd plant ei strwythuro'n grwpiau oedran, yn enwedig yn yr ysgol. Bydd plant ifainc yn dysgu orau am y byd o'u hamgylch oddi wrth blant hŷn a bydd plant hŷn yn elwa o'r cyfrifoldeb a'r empathi y bydd chwarae â phlant iau yn ei olygu. Bydd dylunio mannau chwarae deallus yn caniatáu i blant gymysgu, hyd yn oed os oes eitemau yno sy'n apelio mwy at gyfnodau datblygiad penodol.
8) **yn cynnwys cyfleoedd i brofi risg a her** – bydd plant yn dysgu trwy brofiad a bydd cymryd risgiau bychain yn datblygu'r dysg yma. 'Dyw hyn ddim yn golygu bod rhaid hedfan hanner cant o blant yn yr awyr, ond bydd cyfleoedd i falansio a dringo a symud o gwmpas ar dir anwastad i gyd yn cynyddu sgiliau plant.
9) **yn gynaliadwy ac yn cael eu cynnal mewn modd priodol** – waeth os yw'r man chwarae'n fawr neu'n fach, bydd angen bod â chynlluniau yn eu lle o'r dechrau cyntaf ynghylch sut y caiff y safle ei gynnal a'i gadw ar gyfer y dyfodol. A fydd y grŵp yn parhau i fod ynghlwm â rheoli'r safle? A oes angen archwilio tywod yn rheolaidd? A oes ariannu ar gael i barhau i ddatblygu a chynnal y safle?
10) **yn caniatáu ar gyfer newid ac esblygu** – mae plant yn hoffi gallu newid eu hamgylchedd er mwyn ei gadw'n ffres ac yn gyffrous. Gellir gwneud hyn trwy sicrhau bod eitemau symudol ar gael, yn cynnwys elfennau naturiol neu trwy ddatblygu'r safle dros gyfnod maith fel ei fod yn esblygu yn hytrach na chyrraedd ar gefn lori un diwrnod a pheidio â newid byth.

Cynnal a chadw

Bydd angen rhaglen reolaidd o gynnal a chadw ar y man chwarae. Bydd y modd y caiff hyn ei drefnu'n dibynnu ar y sefyllfa'n lleol a'r lefel o ddefnydd.

Bydd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol / wythnosol yn digwydd eisoes – mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys gwirio am arwyddion camddefnydd bwriadol, fandaliaeth a chasglu sbwriel ne u eitemau peryglus.

Ystyriaethau cynnal a chadw

Ffactorau cynnal a chadw y dylid eu hystyried:

- A oes modd dynodi mudiad lleol all fod yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw?
- Pa waith cynnal a chadw cyffredinol fydd ei angen? Gall y gymuned leol ymgymryd â thasgau fel casglu sbwriel, torri gwair a gwaith atgyweirio cyffredinol.
- Pa waith cynnal a chadw arbenigol fydd ei angen? Bydd yn well gadael y gwaith o atgyweirio rhannau wedi treulio ar offer chwarae i arbenigwyr.
- Beth fydd costau'r cynlluniau cynnal a chadw? Unwaith i'r gyllideb gael ei phennu bydd angen ei chynnwys mewn gweithgareddau codi arian.

Gwiriadau man chwarae cyffredin

Enw'r safle: **Amlder Gwiriadau (dyddiol / wythnosol):**

Dyddiad	Problemau / beth gafodd ei wneud	Sgôr (gweler yr allwedd)	Enw / Llofnod	Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol
	Wedi casglu sbwriel, wedi gwaredu gwydr wedi torri, wedi gwirio sedd siglen wedi ei difrodi	4		Argymell cynnal gwiriadau dyddiol dros yr haf. Ychwanegu'r sedd siglen wedi ei difrodi i'r rhestr wirio archwiliadau cyffredin

Allwedd (sgorio): Dylid pennu rhif rhwng 1-5 i gynrychioli'r lefel difrod / gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar bob ymweliad.

1 = Dim neu fawr ddim sbwriel, dim difrod
2 = Rhywfaint o sbwriel, arwyddion traul a defnydd rheolaidd
3 = Sbwriel cymedrol, gwaredu rhywfaint o wrthrychau peryglus
4 = Sbwriel a / neu ddifrod sylweddol
5 = Arwyddion o ddefnydd sylweddol iawn, llawer o sbwriel / gwrthrychau peryglus i'w gwaredu, angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd sylweddol

Fel canllaw, os y bydd tiroedd yr ysgol, fel arfer, yn sgorio 1 neu 2 efallai y bydd gwiriadau wythnosol yn ddigonol, os yw'n sgorio 4 neu 5, efallai y bydd angen gwiriadau dyddiol. Gallwn ddefnyddio'r daflen yma i fonitro lefel y gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn ogystal â newidiadau tymhorol.

Offer i gynorthwyo

Rheoli risg

O ran iechyd a diogelwch, asesu risg a chanllawiau diogelwch, ceir llawer o gamddealltwriaeth a gwybodaeth anghywir a chaiff iechyd a diogelwch ei feio'n aml fel rheswm i BEIDIO â darparu mannau chwarae cyffrous.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cydnabod yn llwyr yr angen i blant brofi a chreu risg fel rhan o'u chwarae. Mae'r Play Safety Forum (PSF) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cyhoeddi datganiad-ar-y-cyd er mwyn hybu agwedd gytbwys tuag at reoli risg mewn chwarae plant. Pwysleisia'r datganiad: tra'n cynllunio a darparu cyfleoedd, y nod fydd nid dileu risg, ond pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau - fydd yr un plentyn yn dysgu am risg os yw wedi ei lapio mewn gwlân cotwm.

Mae'r datganiad hwn yn ei gwneud yn gwbl glir:

- Bod chwarae'n bwysig i les a datblygiad plant
- Pan fyddwn yn cynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, nad dileu risg yw'r nod, ond yn hytrach y dylid pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau
- Y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli gwir risg, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid canolbwyntio ar y gwaith papur
- Y bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.

Mae'r Play Safety Forum wedi cynhyrchu Ffurflen Asesu Risg-Budd newydd sy'n rhwydd i'w ddefnyddio sy'n cynorthwyo darparwyr chwarae i gydbwyso buddiannau unrhyw weithgaredd gydag unrhyw risgiau cynhenid, gan ystyried y risgiau tra'n cydnabod buddiannau profiadau chwarae heriol i blant a phobl ifanc. Mae'r ffurflen ar gael i'w lawrlwytho ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/rheolirisg

Polisi rheoli risg

Datblygwyd y polisi hwn er mwyn darparu agwedd gydlynol, gyson a chytbwys tuag at reoli risg ar _____ _____ ac er mwyn sicrhau gwell eglurder dealltwriaeth ynghylch y mater hwn.

Trwy hyn, mae'r polisi'n anelu i herio rhywfaint ar natur ofn risg ein cymdeithas heddiw, all gyfyngu ar brofiadau chwarae plant.

Caiff y polisi ei gefnogi gan y datganiad canlynol a gyhoeddwyd gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn 2005:

"Mae iechyd a diogelwch synhwyrol yn ymwneud â rheoli risgiau yn hytrach na'u dileu i gyd. Nid yw HSE yn y busnes o ddileu pleserau syml ble bynnag y byddant yn ymddangos ac ar ba bynnag gost. Rydym yn cydnabod buddiannau chwarae i ddatblygiad plant, sydd o reidrwydd yn cynnwys rhywfaint o risg, ac ni ddylid aberthu hyn wrth anelu am nod amhosibl diogelwch absoliwt."

Systemau rheoli risg

Defnyddir y term Rheoli Risg yn y polisi hwn i gyfeirio at *bob* elfen sydd ynghlwm â'r broses o reoli risg allai, ac a ddylai, gynnwys llawer mwy nag asesiadau risg ar bapur yn unig. Ble fo'r elfennau hyn i gyd yn cael eu cefnogi'n ddigonol, bydd yn bosibl datblygu systemau rheoli risg cryfach a mwy deallus.

Darparu ar gyfer risg a her mewn darpariaeth chwarae

Mae _____ yn cydnabod bod plentyndod yn llawn profiadau newydd fydd, o reidrwydd, yn cynnwys rhyw elfen o risg neu fentro, boed yn gorfforol neu'n emosiynol. Mae plentyndod yn broses barhaus o brofi a methu gyda'r posibilrwydd o lwyddo, ond yn ogystal â damweiniau anochel. Fyddai plant fyth yn dysgu sut i gerdded, dringo grisiau na mynd ar gefn beic oni bai eu bod wedi eu symbylu'n gryf i ymateb i heriau sy'n cynnwys perygl o anafiadau.

Mae gennym ddyletswydd gofal i geisio amddiffyn unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n cyfleusterau rhag effeithiau niweidiol, tymor hir posibl wynebu niwed corfforol ac emosiynol difrifol ac *afresymol.* Fodd bynnag, wrth wneud hyn ddylen ni ddim ei anwybyddu, neu ei geisio ar draul, galluogi plant i gyfranogi'n weithredol yn eu datblygiad personol eu hunain o iechyd, lles a gwytnwch, o ganlyniad i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd â chanlyniadau ansicr.

Asesu risg-budd

Caiff penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n *rhesymol* a'r dymuniad i blant ddelio â pheryglon, eu llunio gan ddefnyddio agwedd risg-budd. Mae'r broses yma'n cynnwys ystyried y buddiannau posibl a gyflwynir gan gyfle ynghyd ag unrhyw ganlyniadau negyddol posibl, ac yna llunio barn os yw'r posibilrwydd o anaf yn gymesur â'r buddiannau. Hynny yw, a yw'r buddiannau posibl yn cyfiawnhau caniatáu i berygl anaf sefyll?

Offer i gynorthwyo

At ddibenion asesiadau risg-budd, gall buddiannau fod yn rhai corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu amgylcheddol (ac maent yn debyg o fod yn gyfuniad o'r rhain i gyd). Gellir dynodi risg anaf trwy ystyried tebygolrwydd unrhyw anaf posibl yn digwydd ynghyd â difrifoldeb posibl yr anaf hwnnw.

Camau rheoli rhesymol

Yn ystod y broses risg-budd mae'n bosibl y bydd angen dynodi camau rheoli er mwyn lleihau'r perygl o anafiadau i lefel derbyniol. Fodd bynnag, bydd y camau rheoli, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu gweithredu, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Bydd rhaid cyfiawnhau cost unrhyw gamau rheoli posibl trwy sicrhau eu bod yn gymesur â'r perygl anaf cysylltiedig.

Cyn cyflwyno unrhyw gamau rheoli, dylid ystyried hefyd unrhyw effeithiau negyddol posibl allai godi'n sgîl gwneud ymyrraeth o'r fath. Er enghraifft, mae'n bwysig na chaiff angen plant i ddefnyddio eu hamgylchedd mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl eu cyfyngu mewn ymgais i ddarparu amddiffyniad llwyr rhag anafiadau.

Gwiriadau safle ac archwiliadau technegol

Ar safleoedd chwarae heb eu staffio, gellir cynnal gwiriadau ysbeidiol er mwyn dynodi a rheoli peryglon. Fodd bynnag, bydd amlder y gwiriadau hyn yn dibynnu ar yr hyn y gellir, yn rhesymol, ei gyflawni o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, y math o gyfleuster a'i leoliad.

Mae'r tabl isod yn nodi amlder cytûn ar gyfer cynnal archwiliadau cyffredin a thechnegol

Math o wiriad	Amlder	Nodiadau
Archwiliad technegol blynyddol	Blynyddol	I'w gynnal gan arolygydd Cofrestr Rhyngwladol Arolygwyr Chwarae (RPii)
Asesiad risg-budd llawn ar bapur	Bob chwe mis	
Archwiliad cyffredin	Wythnosol	Gwirio pob darn o offer, gwirio'r ardal o amgylch y safle, gwirio pob elfen naturiol, cofnodi unrhyw faterion sy'n codi a'u cynnwys yn yr asesiad risg-budd bob chwe mis
Archwiliad cyffredin	Dyddiol	Gwiriad gweledol o ddarnau offer, casglu sbwriel
Cynnal a chadw cyffredin	Wythnosol	Casglu sbwriel, cribinio'r tywod, chwilio am wrthrychau peryglus
Torri glaswellt	Pob mis yn ystod y tymor tyfu	Gadael ardaloedd ger y coed i dyfu'n wyllt

Crynodeb

- Mae gwerth cynhenid i blant o brofi ansicrwydd a her personol trwy eu chwarae.
- Mae angen i blant deimlo'n rhydd i brofi risg a her o'u dewis eu hunain. Fydd dim ond modd iddyn nhw wneud hyn os y byddwn yn caniatáu rhyw elfen o ansicrwydd i aros.
- Mae'r ddarpariaeth chwarae y byddwn yn ei greu'n anelu i gefnogi plant i brofi lefelau rhesymol o risg drostynt eu hunain.
- Mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau lefelau priodol o amddiffyn, a gwarchod lefelau rhesymol o ansicrwydd.
- Rydym yn anelu i reoli risg fel bod, pryd bynnag y bo'n rhesymol bosibl, y risg o anaf y bydd plant yn ei wynebu'n gymesur â'r buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.
- Bydd camau rheoli'n rhesymol ac yn realistig, tra'n sicrhau y caiff risgiau diangen eu lleihau.
- Mae rheoli risg yn ymgorffori nifer o wahanol elfennau sy'n gweithio gyda'i gilydd i lunio cylchdro parhaus, fydd yn gwella ein arfer.
- Mae plant yn gwbl abl i reoli rhywfaint o risg drostynt eu hunain a bydd eu gallu'n datblygu wrth i'w profiad gynyddu.

Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i'r canlynol am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau:

Canolfan Chwarae Y Sblot, Gwasanaethau Chwarae Caerdydd
Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Grŵp Chwarae Shirenewton, Gwasanaeth Gofal Plant Caerdydd, sy'n rhan o'r Uned Strategaeth Gofal Plant Llywodraeth Cymru
Pobl Ifanc o fforymau rhanbarthol Y Daith Ymlaen
Tîm Chwarae Plant, Dinas a Sir Abertawe
Tîm Datblygu Chwarae, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Tri-County Play Association
Unity in 2 the Community

Adnoddau a chyfeiriadau

Aspinwall, T. a Larkins, C. (2010) *Travellers and Gypsies: Generations for the Future.* Caerdydd: Achub y Plant Cymru.

Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change: Play, policy and practice - a review of contemporary perspectives.* Llundain: National Children's Bureau.

Llywodraeth Cymru (2002) *Polisi Chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2010) *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2011) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2012) *Teithio at Ddyfodol Gwell – Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) *Deddf Tai (Cymru) 2014.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru.

Shacknell, A., Butler, N., a Ball, D. (2008) *Design for Play: A guide to creating successful play spaces.* Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd; Yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Play England.

The National Playbus Association (dim dyddiad) *Working With Travellers: A Practical guide for play, youth and community groups.* Bryste: The National Playbus Association.

UNICEF (1991) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.* Svenska: UNICEF Kommitten.

Y Ddraig Ffynci (2007) *Pam fod oed pobl yn mynd fyny ddim lawr?* Abertawe: Y Ddraig Ffynci.

New Model Army Photography

New Model Army Photography